Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro
Cardiff & Vale Safeguarding Board

BWRDD DIOGELU RHANBARTHOL

# ADRODDIAD BLYNYDDOL

2024-2025




**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**
This document is available in English

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

STRONGER
FAIRER
GREENER

CARDIFF
CAERDYDD



# CYNNWYS


**Pum Maes Effeithiolrwydd Diogelu** 4

**Ein blaenoriaethau ar gyfer 2024-2025** 6

Blaenoriaeth 1: Hanfodion Diogelu 8

Blaenoriaeth 2: Adolygiadau Diogelu Effeithiol 16

Blaenoriaeth 3: Ymateb i Themâu Diogelu 18

**Tynnu sylw at ein Cyflawniadau yn 24-25...** 24

Y Broses Ddiogelu 24

Gweithgarwch a data amlasiantaethol 37

Mannau Problemus Thematig 39

Adborth defnyddwyr gwasanaeth 40

Gwybodaeth am y gweithlu 41

**Adran 137: Ceisiadau am wybodaeth** 44

**Ein Partneriaeth Diogelu** 45

**Cyllideb** 46

**Cysylltu â ni** 47

**ATODIADAU** 48



# CYFLWYNIAD

Mae Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro (BDCF) yn cynnig trosolwg cynhwysfawr o'n cynnydd dros y flwyddyn ddiwethaf wrth gyflawni blaenoriaethau strategol y Bwrdd. Mae'n gyfle i fyfyrio ar yr ymdrechion a'r cyflawniadau ar y cyd ar draws rhanbarth Caerdydd a'r Fro.

Er bu'n rhaid gweithredu o fewn hinsawdd gymdeithasol ac ariannol heriol o ran gwasanaethau cyhoeddus, mae'r gweithlu diogelu yn parhau i ddangos ymroddiad, gwytnwch a phroffesiynoldeb eithriadol. Mae eu hymrwymiad diwyro yn wyneb heriau parhaus yn ganmoladwy.

Mae gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth yn parhau i fod yn ganolog i gyflawni canlyniadau cynaliadwy ac ystyrlon i unigolion a chymunedau ledled y rhanbarth.

**Sarah McGill** - Cyfarwyddwr Corfforaethol, Pobl a Chymunedau

**Lance Carver** - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Bro Morgannwg

**Carl Harris** - Cyfarwyddwr Cynorthwyol, NSPCC

# PUM MAES EFFEITHIOLRWYDD DIOGELU

Er mwyn darparu darlun cenedlaethol cydlynol, cywir a phriodol gytbwys o effeithiolrwydd diogelu yng Nghymru a dealltwriaeth genedlaethol gyffredin o gryfderau, gwendidau, meysydd ar gyfer gwella a datblygu'r system gyfan, mae'n ofynnol i ni fel bwrdd ymateb i'r Pum Maes Effeithiolrwydd Diogelu ac, yn anad dim, ymateb i un cwestiwn sylfaenol.

Amlygir y meysydd hyn drwy gyfrwng allwedd drwy gydol yr Adroddiad Blynyddol i arddangos meysydd o gynnydd ac arfer da yn y meysydd hyn:

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Y Broses Ddiogelu | • Sut all y bwrdd fod yn sicr bod trefniadau'n effeithiol wrth **nodi** ac ymateb i bryderon diogelu?<br>• Beth yw canlyniadau prosesau ac ymyriadau diogelu rhanbarthol? |
| 2. | Gweithgarwch a Data Amlasiantaethol | • Sut mae'r bwrdd yn sicrhau ei hun bod **protocolau presennol rhwng asiantaethau'n gweithio'n effeithiol**, pan nodir bod unigolion mewn perygl o niwed?<br>• Pa ddata sy'n cael ei gasglu o amgylch hyn, sut mae'n cael ei rannu a pha dystiolaeth sydd wedi dod i'r amlwg yn y cyfnod? |
| 3. | Mannau Problemus Thematig | • Pa **ffynonellau thematig allweddol o niwed** sy'n gofyn am ymateb diogelu lleol sydd wedi'u tystiolaethu yn nata'r Bwrdd?<br>• Pa gamau sydd wedi'u nodi i ymateb i'r dystiolaeth thematig hon? |
| 4. | Adborth Defnyddwyr Gwasanaeth | • Beth yw **amcanion y BDRh o ran casglu adborth defnyddwyr gwasanaeth** mewn perthynas â gweithgarwch diogelu uniongyrchol?<br>• Beth mae'r metrigau sy'n cipio'r adborth hwn yn ei ddweud wrth y Bwrdd?<br>• Sut mae'r Bwrdd yn bwriadu ymateb i'r dystiolaeth hon ac o fewn pa derfyn amser? |
| 5. | Gwybodaeth am y Gweithlu | • Beth sy'n hysbys am **broffil** y gweithlu diogelu?<br>• Sut mae **recriwtio a chadw** yn effeithio ar gyflawni dyletswyddau diogelu?<br>• I ba raddau y mae **hyfforddiant amlasiantaethol** yn cael ei gynnig a'i ddilyn gan y gweithlu diogelu (fel y'i proffiliwyd)?<br>• Pa dystiolaeth sydd ar gael i roi sicrwydd i'r Bwrdd bod asiantaethau'n deall ac yn ymateb i **les a chefnogaeth** y gweithlu diogelu? |

# EIN BLAENORIAETHAU AR GYFER 2024-2025

## BLAENORIAETH 1: HANFODION DIOGELU

**CANLYNIAD:** *Mae'r bwrdd diogelu rhanbarthol yn cefnogi gwelliant strategol, partneriaethau effeithiol a datblygiad y gweithlu i sicrhau bod hanfodion diogelu yn cael eu cryfhau ar draws y rhanbarth*

## BLAENORIAETH 2: ADOLYGIADAU DIOGELU EFFEITHIOL

**CANLYNIAD:** *Mae'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn sicrhau bod yna brosesau adolygu effeithiol a bod gwersi a ddysgwyd o adolygiadau'n cael eu gweithredu ar draws y bartneriaeth*

## BLAENORIAETH 3: YMATEB I THEMÂU DIOGELU

**CANLYNIAD:** *Mae'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn ymateb yn effeithiol i themâu diogelu sy'n dod i'r amlwg ac yn cefnogi cydlyniad ymateb amlasiantaethol effeithiol*



# BLAENORIAETH 1: HANFODION DIOGELU

## CANLYNIAD:

**Mae'r bwrdd diogelu rhanbarthol yn cefnogi gwelliant strategol, partneriaethau effeithiol a datblygiad y gweithlu i sicrhau bod hanfodion diogelu yn cael eu cryfhau ar draws y rhanbarth.**

| | CAM GWEITHREDU | EIN CYNNYDD ELENI | BETH NESAF? |
|---|---|---|---|
| **LLYWODRAETHU A BUSNES CRAIDD** | | | |
| **1.** | Datblygu aelodaeth glir, cylch gorchwyl, amlinelliad o rolau a chyfrifoldebau ar gyfer y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a'r Grŵp Cyflawni, ynghyd â chynllun sefydlu clir i sicrhau bod yr holl aelodau yn hyderus yn eu rolau a'u cyfrifoldebau fel partner i'r bwrdd diogelu rhanbarthol.<br>.<br>Data a Gweithgarwch Amlasiantaethol<br>Gwybodaeth am y Gweithlu | **Wedi'i gwblhau** - Mae'r aelodaeth, cylch gorchwyl ac offer sefydlu ar waith ac wedi'u diweddaru. | Bydd sicrhau gweithrediad cyson a chadarn y Bwrdd Diogelu yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i'r Bwrdd, a chyda'r holl drefniadau llywodraethu priodol ar waith, fe ddaw hyn yn fusnes fel arfer.<br>Bydd ein hymarfer hunanasesu blynyddol yn helpu i lywio effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu a bydd camau gwella yn helpu i hybu unrhyw welliannau sydd eu hangen. |
| **2.** | Cynnal ymarfer hunanasesu blynyddol o'r BDRh a rhoi diweddariad cadarn am gynnydd yn erbyn camau gwella 2023-24.<br>Data a Gweithgarwch Amlasiantaethol | **Wedi'i gwblhau** - Cynhaliwyd adolygiad o gamau hunanasesu'r bwrdd yn 23-24. Cyflwynwyd dadansoddiad o'r cynnydd i'r bwrdd yn ogystal â manylion am feysydd sydd angen cynnydd pellach. Cwblhawyd hunanasesiad newydd ar lefel y Bwrdd ym mis Ionawr 25 a'i ddefnyddio i lywio blaenoriaethau'r Cynllun blynyddol nesaf. | Mae hunanasesiad y BDRh yn parhau i fod yn un o flaenoriaethau'r<br>Bwrdd Diogelu Rhanbarthol. Bydd hyn yn cael ei wneud yn flynyddol i ddarparu sicrwydd a llywio'r gwelliannau sydd eu hangen. |
| **3.** | Ymwreiddio fframwaith sicrwydd hunanasesu'r BDRh a nodi themâu sicrwydd a gwella gan bob partner mewn perthynas<br>â'u gweithgaredd hunanasesu.<br>Data a Gweithgarwch Amlasiantaethol | **Wedi'i gwblhau** - Mae fframwaith sicrwydd hunanasesu wedi cael ei ddatblygu a'i gadarnhau a chynhaliwyd ymarfer gyda phartneriaid y bwrdd i adolygu canfyddiadau lefel uchel y broses hunanasesu fewnol. Cyflwynwyd trosolwg o'r canfyddiadau hyn i'r bwrdd. | Bydd sicrhau gweithrediad cyson a chadarn asiantaethau partner y Bwrdd Diogelu yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i'r Bwrdd, a chyda'r holl drefniadau llywodraethu priodol ar waith, fe ddaw hyn yn fusnes fel arfer. |
| **HYFFORDDIANT DIOGELU AMLASIANTAETHOL** | | | |
| **4.** | Profi a Gweithredu rhaglen hyfforddiant diogelu amlasiantaethol y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol.<br>Data a Gweithgar-wch Amlasiantaethol | **Wedi'i gwblhau** - Cynhaliwyd peilot o'r hyfforddiant diogelu amlasiantaethol yn ystod y cyfnod rhwng mis Mehefin 2024 a mis Mawrth 2025. Cynhaliwyd cyfanswm o 6 sesiwn hyfforddi (3 plentyn, 3 oedolyn). Ar ôl diwedd y cyfnod peilot, trefnwyd gweithdai gwerthuso, ac mae'r deunyddiau hyfforddi yn cael eu diwygio/mireinio ar sail yr adborth a dderbyniwyd gan gyfranogwyr/hwyluswyr. | Mae hyfforddiant amlasiantaethol yn parhau i fod yn uchel<br>Bwrdd Diogelu Rhanbarthol. Bydd hyn yn cael<br>ei ddatblygu ymhellach yn 2024-25 gyda chyfres bellach o hyfforddiant chwarterol i'w ddatblygu yn 2025-26. |

| CAM GWEITHREDU | | EIN CYNNYDD ELENI | BETH NESAF? |
|---|---|---|---|
| **5.** | Datblygu ffyrdd o wella dealltwriaeth gyffredin ac ymwybyddiaeth o drothwyon a chanllawiau amlasiantaethol i gryfhau'r broses o wneud penderfyniadau cyson wrth asesu risg.<br>Y Broses Ddiogelu | **Wedi'i gwblhau** - Rhannwyd egwyddorion ymarfer amlasiantaethol a ddatblygwyd i gefnogi dealltwriaeth o'r hyn a ddisgwylir gan bartneriaid mewn perthynas ag ymateb diogelu. | Bydd dogfennau trothwy ar gael ar y wefan a bydd gohebiaeth yn cael ei datblygu i gefnogi'r broses o gyflwyno'r rhain ar draws y bartneriaeth. |
| **6.** | Datblygu offer trothwy diogelu oedolion rhanbarthol er mwyn gallu gwneud penderfyniadau cyson a chael gwell dealltwriaeth o ymgysylltu a throthwyon ar draws y bartneriaeth.<br>Y Broses Ddiogelu | **Wedi'i gwblhau** - Mae dogfen Trothwy Diogelu Oedolion wedi cael ei datblygu a'i chadarnhau gan y Bwrdd Diogelu. | Mae trefniadau wedi'u gwneud ar gyfer cynnal nifer o weithdai ar-lein (Cinio a Dysgu) fel rhan o ymarfer ymgynghori estynedig. |
| **7** | Cydlynu rhaglen o sesiynau datblygu ymarfer amlasiantaethol a rhwydweithiau proffesiynol i gefnogi gwaith amlasiantaethol a rhannu ymarfer.<br>Data a Gweithgarwch Amlasiantaethol<br>Gwybodaeth am y Gweithlu | **Wedi'i gwblhau** - Mae Rhwydwaith Swyddogion Hyfforddi wedi cael ei sefydlu, gyda chynrychiolaeth amlasiantaethol, sy'n cyfarfod bob deufis. Mae'r rhwydwaith hwn yn cynnig cyfleoedd parhaus ar gyfer gwaith amlasiantaethol ac i rannu arfer da | Mae rhannu arfer da o ran hyfforddiant ar draws y partneriaethau yn parhau i fod yn bwysig i'n gwaith, a bydd cyfarfodydd y Rhwydwaith Swyddogion Hyfforddi yn parhau i gael eu cynnal.<br>Mae cynlluniau i drefnu fforymau ar-lein i rannu arfer da yn rheolaidd y tu allan i'r cyfarfodydd. |
| **8** | Adolygu ac ailadrodd hunanasesiad hyfforddi'r BDRh i adolygu cynnydd yn erbyn y Safonau Hyfforddiant Cenedlaethol ac adolygu camau gwella 23/24 i ddangos cynnydd.<br>Data a Gweithgarwch Amlasiantaethol | **Wedi'i gwblhau** - Mae'r hunanasesiad hyfforddi wedi cael ei adolygu, mae canfyddiadau a chamau dilynol wedi cael eu rhannu gyda phartneriaid y grŵp cyflenwi. Ailadroddwyd yr asesiad ym mis Mehefin 2025. | Bydd camau gwella'n cael eu hadolygu a'u diweddaru ar ôl 6 mis a 12 mis. Bydd Hunanasesiadau Hyfforddiant yn cael eu hailadrodd bob blwyddyn. Mae goruchwylio a datblygu hyfforddiant yn weithgaredd craidd i'r bwrdd a bydd yn parhau yn 2024-2025. |
| **DATA A MEWNWELEDIADAU** | | | |
| **9.** | Llunio a gweithredu'r Fframwaith Perfformiad Diogelu Amlasiantaethol Cenedlaethol i sicrhau bod Caerdydd a'r Fro yn adolygu data diogelu perthnasol i lywio cryfderau, gwendidau a meysydd i'w gwella a'u datblygu.<br>Data a Gweithgarwch Amlasiantaethol | **Ar y gweill** - Cynhaliwyd gweithdy fframwaith perfformiad amlasiantaethol ym mis Ionawr lle cytunwyd ar flaenoriaethau casglu data a fformat y fframwaith perfformiad. Mae prototeip wedi'i ddatblygu sy'n amlinellu pa metrigau rydyn ni'n eu casglu, pam rydyn ni'n eu casglu a sut olwg sydd ar enghreifftiau da. | Bydd y prototeip yn cael ei adolygu gan y gweithgor a'i gyflwyno yn 25-26. |

| CAM GWEITHREDU | | EIN CYNNYDD ELENI | BETH NESAF? |
|---|---|---|---|
| **10.** | Gweithio fel rhanbarth i wella ffyrdd o rannu gwybodaeth ar draws partneriaid. Ceisio cefnogi atebion system technegol a TG i ddatblygu hyn.<br>Gwybodaeth am y Gweithlu<br>Data a Gweithgar-wch Amlasiantaethol | **Ar y gweill** - Datblygwyd system ddata 'Single View of the Child', ac mae'r cam cyntaf yn cael ei brofi gan dimau allweddol. Mae Llywodraethu Gwybodaeth wedi'i gwblhau ac mae hyfforddiant ar y system wedi'i rhaeadru. Mae ymarfer glanhau data wedi'i gynnal i sicrhau bod ansawdd data yn ei le. Mae adborth yn cael ei gasglu gan ddefnyddwyr prawf ar hyn o bryd ac mae camau ychwanegol wedi'u cytuno i ymgorffori setiau data partneriaid ychwanegol. | Peilota'r offeryn gydag ysgolion<br>Gweithredu camau ychwanegol a darnau data<br>Rhannu cynnydd gyda'r Fro i ystyried gweithredu rhanbarthol |
| **ARCHWILIO A GWERTHUSO** | | | |
| **11.** | Gwerthuso ar draws y rhanbarth pa mor dda y defnyddir prosesau uwchgyfeirio a herio yn ymarferol, gwneud argymhellion ar gyfer gwella ar draws y rhanbarth.<br>Y Broses Ddiogelu | **Ar y gweill** - Cwestiynau cychwynnol ar gyfer yr archwiliad wedi'u drafftio, a disgwylir i'r archwiliad gael ei gynnal erbyn Medi 25. | Archwiliad ar y defnydd o brosesau uwchgyfeirio a herio i'w gynnal yn unol â'r Fframwaith Sicrwydd Ansawdd a'r Calendr Archwilio yn 25-26. I gynnwys gwaith gydag ymarferwyr i ddeall pa mor hawdd ydyw i'w ddefnyddio a hygyrchedd. |
| **12.** | Ymgorffori ffyrdd effeithiol o fyfyrio a dysgu o weithgarwch archwilio lleol ar draws partneriaid i gefnogi datblygiadau lleol i ymarfer. Ymgorffori ffyrdd effeithiol o fyfyrio a dysgu o weithgarwch archwilio lleol ar draws partneriaid i gefnogi datblygiadau lleol i ymarfer.<br>Y Broses Ddiogelu<br>Data a Gweithgar-wch Amlasiantaethol | **Wedi'i gwblhau** - Fframwaith archwilio wedi'i ddatblygu ochr yn ochr â chalendr archwilio. Mae archwiliad asiantaeth unigol a argymhellir hefyd wedi'i rannu â phartneriaid perthnasol. | Parhau i adeiladu ar a gweithredu'r calendr archwilio a'r model dysgu parhaus trwy'r ffrydiau gwaith i gyd. |
| **CYFATHREBU AC YMGYSYLLTU** | | | |
| **13** | Cynhyrchu a gweithredu BDRh clir<br>Cynllun Cyfathrebu sy'n amlinellu'r gweithgarwch cyfathrebu craidd y bydd y bwrdd yn ymgymryd ag ef i sicrhau bod ei waith yn cael ei hyrwyddo'n eang i'r<br>gweithlu, cymunedau a phartneriaid perthnasol eraill yn y rhanbarth.<br>Gwybodaeth am y Gweithlu | **Ar y gweill** - Datblygu gwefan newydd a fydd yn cefnogi cyfathrebu effeithiol. Cwblhau calendr cyfathrebiadau | Cwblhau cynllun cyfathrebu a'i roi ar waith yn Chwarter 3 2025-206. |

| CAM GWEITHREDU | | EIN CYNNYDD ELENI | BETH NESAF? |
|---|---|---|---|
| **14** | Datblygu ac ymgorffori cyfres o egwyddorion ymgysylltu a chyfranogi ar gyfer y BDRh a phartneriaid ar draws y rhanbarth i sicrhau bod plant ac oedolion sydd mewn perygl yn gyfranogwyr gweithredol wrth lunio a gwella dyluniad a darpariaeth gwasanaethau ar draws y rhanbarth.<br>Y Broses Ddiogelu<br>Llais Defnyddiwr y Gwasanaeth | **Wedi'i gwblhau** - Egwyddorion ymgysylltu a chyfranogi ar gyfer y Bwrdd wedi'u datblygu a'u cadarnhau. | Adolygu effaith yr egwyddorion yn ddiweddarach yn 2025-2026. |
| **15** | Datblygu Mecanweithiau i adolygu a myfyrio ar adborth defnyddwyr gwasanaeth a chanfyddiadau ymgynghori ar draws sefydliadau partner er mwyn gwella datblygiad a darpariaeth gwasanaethau.<br>Llais Defnyddiwr y Gwasanaeth | **Ar y gweill** - mae mecanweithiau wedi'u hymgorffori yn yr Egwyddorion Ymgysylltu a Chyfranogi a chynhaliwyd ymgynghoriadau ar rai polisïau. | Mae angen datblygu mwy o gyfleoedd i bartneriaid rannu adborth defnyddwyr gwasanaeth. Mae hyn wedi'i ymgorffori yn ein cynllun blynyddol 25-26. |
| **16** | Cwblhau a chyflwyno ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol Digidol i gefnogi'r gwaith o wella ansawdd gwybodaeth atgyfeirio diogelu.<br>Y Broses Ddiogelu<br>Gwybodaeth am y Gweithlu | **Ar y gweill** - Mae MARF rhanbarthol wedi cael ei ddiweddaru yn seiliedig ar argymhellion a bydd hyn yn cael ei ddiweddaru ar y wefan. Mae'r Bwrdd wrthi'n datblygu ffurflenni atgyfeirio Cymru Gyfan a fydd ar ffurf ddigidol. | Parhau i weithio'n genedlaethol i gynhyrchu ffurflen Atgyfeirio Cymru Gyfan. |

# BLAENORIAETH 2: ADOLYGIADAU DIOGELU EFFEITHIOL

## CANLYNIAD :

Mae'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn sicrhau bod yna brosesau adolygu effeithiol a bod gwersi a ddysgwyd o adolygiadau'n cael eu gweithredu ar draws y bartneriaeth.

| CAM GWEITHREDU | | EIN CYNNYDD ELENI | BETH NESAF? |
|---|---|---|---|
| **DATBLYGU'R BROSES ADOLYGU** | | | |
| **1.** | Cynhyrchu a chyflwyno cynllun gweithredu Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (ADUS) i gefnogi'r broses o gyflwyno ADUS yn effeithiol ar draws y rhanbarth. Cynllun gweithredu i gynnwys cynllun hyfforddi cadarn. Y Broses Ddiogelu | **Wedi'i gwblhau** - Cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu ac mae'n cael ei ddatblygu. Rheolwr adolygu yn y swydd i gydlynu'r gwaith o gyflwyno'r cynllun. Cyflwynwyd hyfforddiant ADUS. Hyfforddiant pellach i'w ddarparu yn 25-26. | Bydd y Bwrdd yn parhau i fonitro gweithrediad yr ADUS drwy'r adolygiadau ADUS y cytunwyd arnynt ac yn rhoi adborth i Lywodraeth Cymru ar gynnydd. |
| **2.** | Cynhyrchu a chyflwyno cynllun gwella'r Grŵp Adolygu Achosion i gryfhau trefniadau llywodraethu i gefnogi a hwyluso'r gwaith o weithredu ADUS a chyflawni adolygiadau diogelu effeithiol. Y Broses Ddiogelu | **Wedi'i gwblhau** - Cynllun gwella'r Grŵp Adolygu Achosion wedi'i ddatblygu a'i gadarnhau. Fe'i gweithredwyd yn gynnar yn 2024 a'i adolygu yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Mae hyn wedi arwain at effaith gadarnhaol ar gyfraniad, strwythur a phresenoldeb. Mae penderfyniadau cadarn yn cael eu gwneud a phrosesau clir bellach ar waith. | Bydd y Grŵp Adolygu Achosion yn parhau i adolygu effeithiolrwydd y grŵp fel busnes craidd. |
| **RHANNU AC YMGORFFORI DYSGU** | | | |
| **3.** | Datblygu fframwaith 'lledaenu dysgu' i sicrhau bod dysgu'n cael ei rannu'n effeithiol, yn systematig ac yn gynaliadwy gyda'r holl weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion mewn perygl. Data a Gweithgar-wch Amlasiantaethol; Gwybodaeth am y Gweithlu | **Wedi'i gwblhau** - Fframwaith Dysgu a Gwella wedi'i ddatblygu a'i gadarnhau gan y bwrdd. Amlinellu ymagwedd y Bwrdd at gynnal adolygiadau a MAPFS, bwrw ymlaen ag argymhellion a rhannu dysgu yn effeithiol. | Bydd y Grŵp Adolygu Achosion, paneli a'r Uned Fusnes yn parhau i ddefnyddio'r fframwaith yn ystod adolygiadau ac ar ôl hynny gan ddefnyddio pecyn dysgu a fydd yn cynnwys astudiaethau achos, dysgu â chymorth (briff 7 munud/podlediadau/fideo), gweithdai cinio a dysgu (wedi'u recordio ac ar y wefan), adroddiad cynnydd blynyddol i'r Bwrdd a digwyddiad dysgu blynyddol. |

# **BLAENORIAETH 3:** YMATEB I THEMÂU DIOGELU

## CANLYNIAD:

Mae'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn ymateb yn effeithiol i themâu diogelu sy'n dod i'r amlwg ac yn cefnogi cydlyniad ymateb amlasiantaethol effeithiol.

| CAM GWEITHREDU | | EIN CYNNYDD ELENI | BETH NESAF? |
|---|---|---|---|
| **CAM-DRIN PLANT YN RHYWIOL** | | | |
| **1.** | Cwblhau hunanasesiad ar draws ein hymarfer presennol a'n hymateb i gam-drin plant yn rhywiol i lywio blaenoriaethau cyflawni a datblygu ynghylch cam-drin plant yn rhywiol. Mannau Problemus Thematig | **Wedi'i gwblhau** - Cwblhawyd hunanasesiad cam-drin plant yn rhywiol yn 2024. Adolygwyd canfyddiadau'r asesiad a'u defnyddio i lunio cynllun gweithredu newydd. Grŵp gorchwyl a gorffen cam-drin plant yn rhywiol yn ei le i yrru cynnydd. | Mae atal cam-drin plant yn rhywiol yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Bwrdd Diogelu yn 2025-2026. Bydd y Gweithgor Cam-drin Plant yn Rhywiol yn parhau i gyflawni yn unol â'r cynllun gweithredu rhanbarthol ar gyfer atal cam-drin plant yn rhywiol a luniwyd o giplun hunanasesiad y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC). |
| **2.** | Ymateb i Gynllun Gweithredu Cenedlaethol Cymru Gyfan ar gyfer atal cam-drin plant yn rhywiol a chael sicrwydd gan bartneriaid bod y camau gwella allweddol yn cael eu datblygu ar draws y rhanbarth. Mannau Problemus Thematig | **Ar y gweill** - Mae'r Uned Fusnes a phartneriaid y Bwrdd yn parhau i fod yn rhan o ddatblygu'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol. Aros i gyhoeddi'r cynllun cyn ymateb yn swyddogol ond mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo trwy gynllun gweithredu rhanbarthol a sicrhau cydgysylltiad trwy weithgor. | Mae atal cam-drin plant yn rhywiol yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Bwrdd Diogelu yn 2025-2026. Bydd Gweithgor Cam-drin Plant yn Rhywiol yn parhau i gysylltu â datblygiadau'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol a bydd yn ymateb ar ôl ei gyhoeddi. |

| | CAM GWEITHREDU | EIN CYNNYDD ELENI | BETH NESAF? |
|---|---|---|---|
| **3.** | Adolygu a mynd ymlaen i gwblhau'r argymhellion o adolygiadau ymarfer lleol a chamau gweithredu sy'n cynnwys dysgu mewn perthynas â cham-drin plant yn rhywiol.<br>Mannau Problemus Thematig | **Ar y gweill** - Mae adolygiad parhaus a gwaith targedig i fwrw ymlaen â'r argymhellion ar y gweill. Ystyriwyd argymhellion yn y gweithgor cam-drin plant yn rhywiol ac fe'u hymgorfforwyd yng Nghynllun Gweithredu Rhanbarthol Cam-drin Plant yn Rhywiol. | Mae atal cam-drin plant yn rhywiol yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Bwrdd Diogelu yn 2025-2026. Bydd y Gweithgor Cam-drin Plant yn Rhywiol yn parhau i gyflawni yn unol â'r cynllun gweithredu rhanbarthol ar gyfer atal cam-drin plant yn rhywiol sy'n ystyried argymhellion ynghylch cam-drin plant yn rhywiol o adolygiadau. |
| **CAM-DRIN DOMESTIG** | | | |
| **4.** | Cryfhau gwaith traws-fwrdd gyda byrddau VAWDSV i sicrhau dull cydweithredol, cryfach o ran y thema ddiogelu hon.<br>Mannau Problemus Thematig | **Ar y gweill** - Cyflwynwyd themâu dysgu o Adolygiadau Lladdiad Domestig i'r BDRh i'w goruchwylio a thrafod. Uned Fusnes a thîm VAWDASV yn gweithio'n agos i alinio gwaith lle bo hynny'n briodol | Gwaith pellach wedi'i ymgorffori yng Nghynllun Blynyddol 25-26 i wella a chryfhau'r gwaith traws-fwrdd rhwng ffrydiau gwaith y BDRh a VAWDASV. Sicrhau mwy o weledǝdd o flaenoriaethau strategol sy'n gysylltiedig â VAWDASV yn y BDRh. |
| **5.** | Sicrhau bod prosesau ar waith i ymateb yn effeithiol i'r pryderon diogelu mewn perthynas â phlant ac oedolion sydd ag angen gofal a chymorth sy'n cael profiad o gam-drin domestig yn y cartref neu sy'n cael eu heffeithio ganddo.<br>Mannau Problemus Thematig<br>Y Broses Ddiogelu | **Angen gwaith pellach** – i'w gynnwys yn ein cynllun blynyddol ar gyfer 2025-2026. | Mae ein cynllun blynyddol 2025-2026 wedi nodi rhai meysydd gweithredu mwy penodol i ganolbwyntio arnynt:<br>Gwella eglurder a dealltwriaeth ar draws partneriaid o rôl prosesau a gweithdrefnau diogelu mewn perthynas â phlant sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig<br>Adolygu'r data cyfredol a'r darlun o'r angen ar gyfer y rhanbarth o gam-drin domestig i bobl hŷn / oedolion mewn perygl. Datblygu cyfres o gamau gweithredu i symud gwelliannau angenrheidiol ymlaen yn y maes hwn |
| **6.** | Gwella eglurder a dealltwriaeth ar draws partneriaid o rôl prosesau a gweithdrefnau diogelu mewn perthynas â cham-drin domestig.<br>Mannau Problemus Thematig<br>Y Broses Ddiogelu | **Angen gwaith pellach** – i'w gynnwys yn ein cynllun blynyddol ar gyfer 2025-2026. | Mae ein cynllun blynyddol 2025-2026 wedi nodi rhai meysydd gweithredu mwy penodol i ganolbwyntio arnynt |
| **7.** | Adolygu a symud ymlaen i gwblhau'r argymhellion o adolygiadau ymarfer lleol a chamau gweithredu sy'n cynnwys dysgu mewn perthynas â cham-drin domestig.<br>Mannau Problemus Thematig | **Ar y gweill** - Mae adolygiad parhaus a gwaith targedig i fwrw ymlaen â'r argymhellion ar y gweill. | Darparu diweddariad bob chwe mis i Hwb Cydlynu ADUS. Disgwyl Adroddiad Blynyddol ar gynnydd argymhellion ym mis Chwefror 2026. |

| CAM GWEITHREDU | | EIN CYNNYDD ELENI | BETH NESAF? |
|---|---|---|---|
| **8.** | Sicrhau bod dysgu o Adolygiadau Lladdiad Domestig yn cael ei rannu'n effeithiol â Phartneriaid y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol.<br>Mannau Problemus Thematig | **Wedi'i gwblhau** - Cyflwynwyd themâu dysgu o Adolygiadau Lladdiad Domestig (ALID) i'r BDRh ar gyfer goruchwylio a thrafod yn gynnar yn 2024. Darparwyd diweddariad pellach ym mis Ionawr 2025 gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn ein Diwrnod Datblygu'r Bwrdd Diogelu lle ystyriwyd y themâu a'r dysgu o ALIDau ochr yn ochr ag Adolygiadau Ymarfer ac Adolygiadau Cenedlaethol. | Gyda gweithredu'r ADUS, bydd y gwaith hwn yn dod yn fusnes craidd o dan ein gwaith monitro a gweithredu argymhellion sy'n cael ei reoli gan y Rheolwr Adolygu Diogelu. |
| **GALLUEDD A CHYDSYNIO** | | | |
| **9** | Datblygu hyfforddiant amlasiantaethol ac offer codi ymwybyddiaeth i wella dealltwriaeth partneriaid o alluedd meddyliol yng nghyd-destun cydsyniad a dewisiadau annoeth mewn perthynas â diogelu.<br>Mannau Problemus Thematig | **Ar y gweill** - Cynhaliwyd gweithdai galluedd a chydsynio yn ystod Wythnos Diogelu Genedlaethol. Sesiwn cinio a dysgu ar alluedd a chydsynio wedi'i chynnig i gynulleidfa amlasiantaethol o'r bwrdd iechyd. Gwaith i ddechrau mewn perthynas ag offer codi ymwybyddiaeth mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd. Gwaith pellach wedi'i gynllunio ar gyfer 25-26. | Sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i ddatblygu Canllaw Ymarfer Cenedlaethol a deunyddiau ategol eraill. Deunyddiau ategol pellach i'w datblygu:<br>• Caerdydd a'r Fro i arwain ar ddatblygu'r Canllaw Ymarfer Cenedlaethol ar gyfer y Deddf Galluedd Meddyliol.<br>• Briff 7 munud rhanbarthol i'w gael ei adnewyddu a'i gyhoeddi.<br>• Parhau i gyflwyno rhagor o weithdai. |
| **10.** | Sicrhau bod prosesau ar waith i ymateb yn effeithiol i'r pryderon diogelu mewn perthynas â galluedd meddyliol a chydsyniad a dewisiadau annoeth, datblygu canllawiau clir gydag offer trothwy diogelu oedolion.<br>Mannau Problemus Thematig<br>Y Broses Ddiogelu | **Wedi'i gwblhau** - Caerdydd a'r Fro i arwain gwaith cenedlaethol ar ganllaw ymarfer ar gyfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol. Offeryn Trothwy Oedolion wedi'i ddatblygu a'i gadarnhau. | Sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i ddatblygu Canllaw Ymarfer Cenedlaethol a deunyddiau ategol eraill fel uchod. |
| **11.** | Adolygu a symud ymlaen i gwblhau'r argymhellion o adolygiadau ymarfer lleol a chamau gweithredu sy'n cynnwys dysgu mewn perthynas â galluedd meddyliol, cydsyniad a dewisiadau annoeth.<br>Mannau Problemus Thematig | **Ar y gweill** - Mae adolygiad parhaus a gwaith targedig i fwrw ymlaen â'r argymhellion ar y gweill. | Mae'r gwaith a amlinellwyd uchod yn ystyried yr argymhellion o adolygiadau a bydd y gwaith a wneir trwy gynllun blynyddol 2025-2026 yn helpu i fwrw ymlaen â'r argymhellion sydd ar ôl i'w cwblhau. |
| **12.** | Sicrhau bod dysgu lleol a chenedlaethol gan gynnwys newid deddfwriaethol, cyfraith achosion a chanllawiau arfer da yn cael eu hystyried gan y bwrdd i helpu i<br>lunio a gwella ymarfer mewn perthynas â galluedd meddyliol, cydsyniad, a dewisiadau annoeth.<br>Mannau Problemus Thematig | **Ar y gweill** - Mae diweddariadau a gwybodaeth yn cael eu rhannu â phartneriaid pan gânt eu derbyn ond mae mwy o waith ar y gweill yn 2025-2026 i fynd i'r afael â'r bylchau. | Sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i ddatblygu Canllaw Ymarfer Cenedlaethol a deunyddiau ategol eraill fel uchod. Defnyddio'r wefan i gyfeirio ymarferwyr at y newid deddfwriaethol, cyfraith achos a deunyddiau eraill sydd fwyaf perthnasol. |

# TYNNU SYLW AT EIN CYFLAWNIADAU YN 24-25...




## Y BROSES DDIOGELU

Er mwyn sicrhau effeithiolrwydd ein prosesau diogelu amlasiantaethol, rydym yn mabwysiadu dull cadarn a chydweithredol sy'n seiliedig ar welliant parhaus, atebolrwydd a chyfrifoldeb ar y cyd. Mae ein sicrwydd yn deillio o gyfuniad o oruchwyliaeth strategol ac ymgysylltu gweithredol ar draws asiantaethau partner. Trwy drefniadau llywodraethu strwythuredig gallwn asesu effaith ein hymyriadau diogelu a nodi meysydd i'w datblygu. Mae'r ymrwymiad cyfunol hwn yn ein galluogi i gynnal safonau uchel o ymarfer a chyflawni canlyniadau ystyrlon i blant ac oedolion sydd mewn perygl ledled y rhanbarth.

### Model Adolygu Parhaus

Mae Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro yn adolygu ffynonellau thematig allweddol o niwed sy'n gofyn am ymateb lleol yn barhaus. Bydd y themâu hyn yn cael eu hamlygu mewn amrywiaeth o ffyrdd a amlinellir yn y diagram isod a byddant yn llywio'r gwaith a wnawn drwy gydol y flwyddyn.



## Y Gofrestr Risgiau

Rhoddwyd Cofrestr Risgiau'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ar waith ym mis Medi 2023, ac mae'n caniatáu i ni uwchgyfeirio, adolygu a lliniaru unrhyw rwystrau sy'n effeithio ar bartneriaid amlasiantaethol gan ymateb yn effeithiol i bryderon diogelu. Mae'r gofrestr risgiau'n eitem sefydlog ar agenda'r Grŵp Cyflawni a'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol.

Nod y gofrestr risgiau yw:

- Darparu goruchwyliaeth glir ynghylch risgiau i bartneriaid y bwrdd
- Meithrin mewnbwn a gweithredu amlasiantaethol i ddad-ddwysáu'r risgiau
- Ystyried risgiau ymhellach a thrafod camau lliniaru yng nghyd-destun y bartneriaeth

Mae llawer o'r risgiau'n heriau systemig cymhleth ac er ein bod yn cydnabod eu bod yn anodd eu datrys, gellir elwa o oruchwyliaeth a thrafodaeth amlasiantaethol.

Gall pob partner ddod â risgiau i sylw'r bwrdd, a byddent yn faterion sy'n amlygu:

- Rhywbeth nad yw'n gweithio i ddiogelu'n effeithiol mewn trefniant amlasiantaethol
- Risgiau diogelu sy'n cael effaith amlasiantaethol

Mae'r risgiau presennol a nodwyd yn cynnwys:

- Dysgu o Adolygiadau Ymarfer
- Gwybodaeth am Berfformiad
- Capasiti Gwelyau Iechyd Meddwl
- Pwysau Tai – digartrefedd/prinder tai
- Gweithredu cartrefi plant heb gofrestru
- Trefniadau llety trawsffiniol ar gyfer pobl ddigartref
- Addysg Ddewisol yn y Cartref
- Capasiti staff iechyd
- Gofal Iawn, Person Iawn
- Ailosod Profiannaeth

## Archwilio a Sicrwydd Ansawdd

Cwblhawyd Fframwaith Sicrwydd Ansawdd Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro yn 2024, sy'n amlinellu'r canlynol:

**1 Archwiliad Mewnol wedi'i gwblhau**

Bydd gan bob asiantaeth bartner weithdrefn, protocol a pholisïau eu hunain ar y ffordd y maen nhw'n cynnal archwiliadau mewnol.

**2 Dysgu wedi'i nodi**

Bydd y dysgu'n cael ei nodi o'r archwiliad a gwblhawyd.

**3 Bydd dysgu yn effeithio ar bartneriaid amlasiantaethol**

Bydd yr asiantaeth bartner yn nodi a yw unrhyw un o'r pethau a ddysgwyd yn gysylltiedig â diogelu ac a fyddant yn berthnasol i bartner amlasiantaethol.

Mae'n bwysig nodi'r pethau a ddysgwyd fydd yn gwella ymarfer ar draws diogelu neu lle bu diffygion blaenorol.

**4 Cyflwyno dysgu i Grŵp Cyflawni'r BDRh**

Bydd yr asiantaeth bartner yn cynyddu eu dysgu gyda'r Uned Fusnes i sicrhau ei bod yn cael ei chynnwys yn yr agenda ar gyfer y grŵp cyflawni nesaf (o dan eitemau grŵp gweithredol lleol).

Bydd y dysgu'n cael ei gyflwyno a bydd trafodaeth ar y ffordd y bydd yn effeithio ar bartneriaid.

Cytunwyd ar galendr archwilio yn 2024 fel a ganlyn:

| Gweithgaredd Archwilio | Dyddiad | Statws |
|---|---|---|
| Archwilio'r Gofrestr Amddiffyn Plant | Ch3 24-25 | Wedi'i gwblhau – argymhellion wedi'u cynhyrchu mewn cynllun gweithredu rhanbarthol ac yn cael eu gweithredu gan bartneriaid – gweithgor wedi'i sefydlu i fonitro'r gweithrediad |
| Hunanasesiad y Bwrdd, Hunanasesiad asiantaethau unigol a hunanasesiad hyfforddiant | Ch4 24-25 | Wedi'i gwblhau – dadansoddiad wedi'i gwblhau a'i gyflwyno i'r bwrdd |
| Proses Uwchgyfeirio a Herio | Ch1 25-26 | Ar y gweill – arolwg wedi'i ddatblygu i ddeall y darlun ar hyn o bryd |

## Egwyddorion Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Hysbysu → Ymgynghori → Cynnwys → Cydweithio → Grymuso

Yn 2024, cyhoeddodd Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro ei Egwyddorion Cyfathrebu ac Ymgysylltu, a gynlluniwyd i lywio ymgysylltiad cyson ac ystyrlon ar draws y rhanbarth. Mae'r egwyddorion hyn wedi'u hategu gan strategaethau cyfathrebu a phecynnau cymorth unigol y sefydliadau partner, gan sicrhau aliniad â fframweithiau presennol.

Mae holl bartneriaid y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol wedi cymeradwyo'r egwyddorion yn ffurfiol, gan ymrwymo i'w hymgorffori yn eu harferion eu hunain er mwyn hyrwyddo dull unedig ac effeithiol o gyfathrebu ac ymgysylltu.

Mae'r egwyddorion ar gael ar wefan y Bwrdd Diogelu yma.

## Gwefan Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro

Yn 2024, lansiodd y Bwrdd wefan newydd sbon wedi'i anelu at weithwyr proffesiynol a'n cymunedau.

bdrhcaerdyddarfro.co.uk

Bydd y wefan yn cael ei defnyddio fel rhywle i bobl fynd i gael gafael ar adnoddau, cymorth ac arweiniad, dogfennau'r Bwrdd a hyfforddiant.

## Fframwaith Perfformiad

Mae Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro wedi bod yn gweithio ar ddatblygu'r Fframwaith Perfformiad Cenedlaethol. Mae partneriaid y bwrdd yn awyddus i sicrhau dadansoddiad effeithiol o'r data rydym yn dechrau ei gasglu, er mwyn caniatáu i themâu, bylchau a thueddiadau allweddol gael eu codi i'w trafod ac er mwyn cymryd camau gweithredu. Er mwyn cefnogi hyn, mae'r uned fusnes wedi penodi dadansoddwr i gyflawni'r swyddogaeth hon.

Cynhaliwyd gweithdy fframwaith perfformiad amlasiantaethol mewn partneriaeth â'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a Phrifysgol Fetropolitan Manceinion ym mis Ionawr 2025 lle cytunwyd ar flaenoriaethau casglu data a fformat y fframwaith perfformiad. Mae prototeip wedi'i ddatblygu sy'n amlinellu pa metrigau rydyn ni'n eu casglu, pam rydyn ni'n eu casglu a sut olwg sydd ar enghreifftiau da.

Mae gwaith pellach wedi'i gynllunio yn 2025-2026 gyda gweithdy adolygu a chynllun i gyflwyno prototeip gyda'r bwriad o ymgorffori casglu data erbyn mis Medi 2025.

## Wythnos Diogelu Genedlaethol



Nododd Caerdydd a Bro Morgannwg Wythnos Diogelu Genedlaethol hynod lwyddiannus yn 2024, gyda rhaglen amrywiol a diddorol o ddigwyddiadau drwy gydol yr wythnos.

Roedd y thema eleni yn canolbwyntio ar esgeulustod, gyda phwyslais penodol ar alluedd a chydsynio, gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth a sicrhau bod esgeulustod yn cael ei gydnabod a'i drin yn briodol. Roedd yr wythnos hefyd yn llwyfan i arddangos y gwaith helaeth a wnaed ledled y rhanbarth i fynd i'r afael ag esgeulustod ac i arfogi ymarferwyr gyda'r wybodaeth, yr hyder a'r offer sydd eu hangen i gefnogi plant, teuluoedd ac unigolion y mae esgeulustod yn effeithio arnynt.

Tynnodd mewnwelediadau o ddadansoddiad thematig o adolygiadau ymarfer plant ac oedolion ledled Cymru sylw at bryderon sylweddol yn ymwneud ag esgeulustod, gan gynnwys pwysigrwydd cynyddol mynd i'r afael â hunanesgeulustod. Mewn ymateb i'r canfyddiadau hyn, datblygodd Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro Becynnau Cymorth Esgeulustod Plant ac Oedolion, a lansiwyd yn swyddogol yn ystod yr wythnos.

Daeth yr wythnos i ben gyda'n Cynhadledd Diogelu Ranbarthol flynyddol ddydd Gwener, 15 Tachwedd, gyda siaradwyr gwadd a chyfres o weithdai rhyngweithiol.

Mae crynodeb cynhwysfawr o weithgareddau a chanlyniadau'r wythnos ar gael yn ein hadroddiad Wythnos Diogelu Genedlaethol.

**12**
**o ddigwyddiadau yn ystod yr wythnos**


**Dros 40**
**o wahanol sefydliadau wedi'u cynrychioli mewn digwyddiadau yn ystod yr wythnos**

**184**
**o bobl yn bresennol yng Nghynhadledd yr Wythnos Diogelu**


## Adolygiadau Diogelu

Mae adolygiadau diogelu yn chwarae rhan hanfodol wrth wella amddiffyniad a lles plant ac oedolion sydd mewn perygl ledled Caerdydd a'r Fro. Maent yn darparu cyfle strwythuredig i fyfyrio ar achosion cymhleth, nodi beth oedd yn gweithio'n dda, ac amlygu meysydd lle gellid cryfhau ymarfer neu systemau. Mae adolygiadau diogelu yn gwella cydweithredu amlasiantaethol ac maent yn fecanwaith allweddol ar gyfer gyrru gwelliant ac atebolrwydd parhaus ar draws partneriaeth Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro.

**Cipolwg ar Ddata Adolygiadau Diogelu**





| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 | 2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| No of Reviews | 1 | 3 | 2 | 3 | 2 | 5 | 5 | 7 | 3 | 2 | 4 | 5 | 3 |





| | Apr-24 | May-24 | Jun-24 | Jul-24 | Aug-24 | Sep-24 | Oct-24 | Nov-24 | Dec-24 | Jan-25 | Feb-25 | Mar-25 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Referrals received (By date of receipt at CVSB) | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 1 | 2 | 0 | 1 | 1 | 0 | 4 |
| Referrals agreed at CRG | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 | 1 | 1 | 0 | 1 |
| Published/ Completed Reviews | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3 | 0 | 0 | 2 | 2 | 0 |


17 Adolygiad Ymarfer a MAPF yn mynd rhagddynt (19 adolygiad Ionawr 24)




## Crynodeb o Sgoriau Coch Oren Gwyrdd




## Categori Camdriniaeth




## Amserlenni Ers Atgyfeirio – Adolygiadau sydd 'Ar Waith'




**57% o'r adolygiadau yn mynd rhagddynt dros 2 flynedd (83% ym mis Gorffennaf)**

**47% o'r adolygiadau yn mynd rhagddynt dros 3 blynedd (61% ym mis Gorffennaf)**

## Gweithredu a gwella ADUS 24-25

Daeth y broses ADUS i rym ar 1 Hydref 2024. Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i sicrhau bod pob asiantaeth yn ymwybodol o'r newidiadau i'r broses, a rhoddwyd sawl mesur ar waith i sicrhau pontio di-dor o'r tri strwythur llywodraethu gwahanol blaenorol ar gyfer y mathau o adolygiadau ADUS sydd bellach wedi'u llywodraethu gan y Bwrdd yn unig. Mae hyn wedi cynnwys sicrhau bod yna gydlyniant rhwng BDCF a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol ar gyfer atgyfeiriadau i adolygu marwolaethau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig, lle gwahoddir aelodau o'r PDC i'r Grŵp Adolygu Achosion i glywed yr atgyfeiriad yn cael ei gyflwyno.

Lobïwyd y Swyddfa Gartref yn llwyddiannus i ganiatáu i'r hyb cydlynu ADUS gynnal y broses sicrwydd ansawdd ar gyfer adolygiadau o farwolaethau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig a fydd yn lleihau'r amser i gyhoeddi adroddiadau.

Mae aelodau o Uned Fusnes BDCF yn ymwneud â phob Rhanddeiliad ADUS Cenedlaethol ac wedi helpu ac yn parhau i lywio datblygiad y broses ADUS, sydd wedi cynnwys pecyn cymorth ADUS i ymarferwyr i sicrhau proses gyson a systematig ar gyfer adolygiadau. Darn arall o waith pwysig yw'r broses ymgysylltu â theuluoedd genedlaethol sydd wedi gweld datblygiad proses sy'n seiliedig yn bennaf ar ymgysylltiad teuluoedd ac adborth o gynllun peilot ADUS BDCF a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2025.

Mae Storfa Ddiogelu Cymru bellach ar waith ac mae BDCF wedi cael mynediad iddi er mwyn cael dealltwriaeth o argymhellion sydd wedi dod o adolygiadau ledled Cymru er mwyn nodi themâu ac ystyried y cyd-destun dysgu ehangach yn erbyn atgyfeiriadau i'w hystyried ac yn ystod y broses adolygu.

## Cynllun Gwella’r Grŵp Adolygu Achosion

Er mwyn gwella'r broses ADUS leol a sicrhau goruchwyliaeth gref ac effeithiol, datblygwyd a gweithredwyd cynllun gwella’r Grŵp Adolygu Achosion (GAA) dros y flwyddyn. Amlinellir y cynnydd isod;

- Y Broses Gyfeirio: Mae atgyfeiriadau bellach yn cael eu sgrinio gan y Rheolwr Adolygu Diogelu i sicrhau bod gwybodaeth a meini prawf allweddol yn cael eu bodloni, gan symleiddio ystyriaeth gan y GAA a lleihau oedi.
- Cynllun Hyfforddi: Mae taenlen hyfforddiant yn tracio ceisiadau hyfforddiant gan asiantaethau, gan sicrhau dosbarthiad teg o hyfforddiant ar draws aelodau'r bwrdd a chaniatáu mwy o annibyniaeth wrth gynnal adolygiadau gyda'r gallu i geisio gwybodaeth arbenigol o'r gronfa fwy o asiantaethau. Er bod hyfforddiant cenedlaethol sylweddol wedi bod, mae cymorth hyfforddi lleol wedi'i ddatblygu i atgyfnerthu’r hyfforddiant cenedlaethol yn ôl yr angen.
- Traciwr: Mae traciwr ADUS pwrpasol yn cofnodi data atgyfeirio ac yn monitro cynnydd adolygu.
- Rheoli Perfformiad: Mae casglu data helaeth yn cefnogi dadansoddi prydlondeb ac effeithiolrwydd atgyfeiriadau, gan alluogi cymariaethau blwyddyn ar ôl blwyddyn a rhagweld galw yn y dyfodol.
- Monitro Argymhellion: Mae argymhellion adolygu cyhoeddedig wedi'u graddio yn ôl system Coch Oren Gwyrdd ac mae angen tystiolaeth ysgrifenedig i'w cwblhau, wedi'u hadolygu gan y Grŵp Cyflawni a'u goruchwylio gan y Bwrdd.
- Themâu Dysgu: Mae themâu allweddol o adolygiadau diweddar yn cael eu nodi a'u rhannu, gan gynnwys yn ystod Diwrnod Datblygu’r BDRh, i gyd-destunoli dysgu lleol.
- Gwefan: Ail-lansiwyd y wefan yn ddiweddar er mwyn gwella hygyrchedd, gyda diweddariadau mynych gan gynnwys ychwanegu’r pedwar adolygiad a gyhoeddwyd yn 2025.
- Cylch Gorchwyl:  Wedi'i adolygu a'i gytuno'n ffurfiol.
- Strwythur Cyfarfodydd: Mae cyfarfodydd amlach a hirach yn caniatáu trafodaethau atgyfeirio mwy trylwyr ac adolygiadau cyflymach.

Rhwng 1 Hydref 2024 a 31 Mawrth 2025, derbyniodd BDCF 11 o atgyfeiriadau ADUS i'w hystyried gan y Grŵp Adolygu Achosion, gan gwmpasu'r holl fathau cyfredol o adolygiadau (Oedolion, Plant, Marwolaethau sy'n Gysylltiedig â Cham-drin Domestig, Lladdiadau Iechyd Meddwl) ac maent hefyd yn cymryd rhan mewn peilot ar gyfer Adolygiadau Lladdiadau ag Arf Ymosodol. Mae hyn yn adlewyrchu dealltwriaeth amlasiantaethol gadarn o'r broses ADUS a hyder proffesiynol cynyddol wrth wneud atgyfeiriadau.

## Cadeiryddion ac Adolygwyr


- **33** o weithwyr proffesiynol o'r rhanbarth wedi'u cofrestru ar restr Cadeiryddion ac Adolygyddion ADUS cymeradwy cenedlaethol ac mae enwau pellach i'w hychwanegu.
- **16** o weithwyr proffesiynol o bartneriaid amlasiantaethol wedi ymgymryd â hyfforddiant cadeiryddion ac adolygwyr ADUS eleni.
- **22** o weithwyr proffesiynol wedi mynychu hyfforddiant aelod panel yn ystod y flwyddyn gan gynrychioli 7 asiantaeth wahanol.

# Dysgu o Adolygiadau

Mae Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro wedi ymrwymo i hyrwyddo diwylliant sy'n gwerthfawrogi ac yn hwyluso dysgu lle mae'r gwersi a ddysgwyd yn cael eu defnyddio i wella ymarfer a gweithio mewn partneriaeth yn y dyfodol.


Mae'r Fframwaith Dysgu a Gwella (FfDG) hwn yn dangos sut bydd dysgu'n cael ei nodi, ei ledaenu a'i roi ar waith yn ymarferol o fewn cyd-destun amlasiantaethol, er mwyn gwella canlyniadau i blant ac oedolion sydd mewn perygl yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Mae'r FfDG yn ganolog i drefniadau diogelu amlasiantaethol. Mae'n galluogi nid yn unig asesiad trwyadl o ansawdd trefniadau diogelu amlasiantaethol, ond hefyd sut rydym yn dysgu o hyn i yrru gwelliannau diogelu yn eu blaen ac yn ei dro, gwella canlyniadau i blant ac oedolion mewn perygl.

Mae'n bwysig bod dysgu sefydliadol sy'n deillio o'r fframwaith hwn yn ddeinamig, yn gylchol ac yn broses aml-haenog sy'n llywio fframwaith cynllunio strategol ehangach BDCF ac yn pennu blaenoriaethau presennol a dyfodol yn unol â'r model adolygu parhaus a amlinellir isod.



| | Gorffennaf 2023 | Mawrth 2024 | Medi 2024 | Mawrth 2025 | Cymharydd Mai 24 - Maw 25 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Camau Gweithredu Agored** | 38 | 113 | 111 | 111 | ▼ |
| **Wedi'u cwblhau** | 45% (17 o gamau) | 14% (16 o gamau) | 39% (43 o gamau) | 47% (52 o gamau) | ▲ |
| **Heb eu cwblhau** | 45% (17 o gamau) | 14% (16 o gamau) | 39% (43 o gamau) | 47% (52 o gamau) | ▼ |
| **Gwyrdd** | 45% (17 o gamau) | 14% (16 o gamau) | 39% (43 o gamau) | 47% (52 o gamau) | ▲ |
| **Oren** | 45% (17 o gamau) | 14% (16 o gamau) | 39% (43 o gamau) | 47% (52 o gamau) | ▼ |
| **Coch** | 45% (17 o gamau) | 14% (16 o gamau) | 39% (43 o gamau) | 47% (52 o gamau) | ▲ |

## Argymhellion Agored – COG




# GWEITHGARWCH A DATA AMLASIANTAETHOL

## Hunanasesiad amlasiantaethol

Yn unol â'r Fframwaith Sicrwydd Ansawdd ac Archwilio, mae'r BDRh yn nodi'r meysydd sydd angen eu gwella mewn perthynas â phrotocolau diogelu amlasiantaethol ac, yn ogystal â hynny, yn mynnu sicrwydd gan bartneriaid amlasiantaethol mewn perthynas â chanfyddiadau eu hunanasesiadau a manylion camau gwella.

## Hunanasesiad y Bwrdd




Cynhaliwyd hunanasesiad ein Bwrdd yn gynnar yn 2025, a dynnodd sylw at rai meysydd boddhaol o gynnydd sydd i'w gweld yn cael eu hamlygu drwy gydol yr adroddiad hwn. Fe wnaethom hefyd nodi nifer o nifer o feysydd sydd angen gwella ymhellach a sicrhau bod y rhain naill ai'n cael eu hymgorffori yn y busnes craidd neu'n cael eu uwchgyfeirio fel blaenoriaeth yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2025-2026.

Yn seiliedig ar y dadansoddiad o hunanasesiad y Bwrdd, nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella a chynigwyd y camau gweithredu cyfatebol.

- Cwblhau **Fframwaith Perfformiad** a darparu dadansoddiad clir i'r bwrdd.
- Sicrhau bod **cyfraniad yr holl bartneriaid** yn cael ei adlewyrchu yn ein cynnydd a'n hadroddiadau blynyddol.
- Sicrhau **lefel gywir o gynrychiolaeth a phresenoldeb cyson** ym mhob un o grwpiau llywodraethu'r BDRh, gyda ffocws penodol ar y Grŵp Adolygu Achosion.
- Mwy o ffocws ar sut rydym yn cydnabod, rhannu a dathlu **arfer da**.
- Sicrhau bod mecanweithiau ar waith i **fesur effaith** cyflawni yn erbyn ein blaenoriaethau gwella.
- Parhau i gryfhau **gweithio traws-fwrdd / blaenoriaethol** (Diogelwch Cymunedol, VAWDASV, Diogelu Corfforaethol Lleol).

## Polisïau a Gweithdrefnau

Trwy'r model adolygu parhaus, mae protocolau a gweithdrefnau amlasiantaethol wedi'u datblygu trwy gydol y flwyddyn i ddiwallu'r anghenion ar draws y bartneriaeth.

Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau canlynol wedi'u datblygu a'u cadarnhau yn 24-25:

- Pecyn Cymorth Hunanesgeulustod Oedolion
- Pecyn Cymorth Esgeuluso Plant
- Polisi Diogelu Plant Anabl
- Fframwaith Dysgu a Gwella
- Pecyn Cymorth Risg Hunanladdiad a Chyngor
- Egwyddorion Cyfathrebu ac Ymgysylltu
- Fframwaith Sicrwydd Ansawdd ac Archwilio
- Egwyddorion "Heb Hebrwng"
- Safonau Ymarfer Rhanbarthol
- Pecyn Sefydlu'r Bwrdd Diogelu
- Cylch Gorchwyl y Bwrdd Diogelu
- Cylch Gorchwyl y Grŵp Cyflawni
- Cylch Gorchwyl y Grŵp Adolygu Achosion
- Egwyddorion Ymarfer Aml-asiantaeth
- Egwyddorion Goruchwylio Amlasiantaethol
- Proses Rheoli Risg
- Protocol y Grŵp Ymateb ar Unwaith
- Offeryn Trothwy Oedolion

Yn ogystal â'r rhai a gyhoeddwyd, mae nifer o ddogfennau wedi'u nodi i'w blaenoriaethu dros y 6 mis nesaf ac maent naill ai ar ffurf drafft neu yng nghyfnodau cychwynnol eu datblygiad fel a ganlyn:

- Canllaw Ymarfer Deddf Galluedd Meddyliol
- Polisi Rheoli Meddyginiaethau
- Gweithdrefn Gwyno
- Rhyddhau Plant sy'n Agored i Niwed o'r Ysbyty
- Dogfennau craidd mewn perthynas â chyfarfodydd amlasiantaethol (Grwpiau Craidd, Cynhadledd)
- Ffugio Salwch neu Achosi Salwch
- Rhyddhau Plant sy'n Agored i Niwed o'r Ysbyty

Yn unol â'r fframwaith archwilio, bydd gweithrediad effeithiol y rhain yn cael ei fonitro a'i adrodd i'r bwrdd.

# MANNAU PROBLEMUS THEMATIG

Mae deall y ffynonellau thematig allweddol o niwed sy'n gofyn am ymateb diogelu yn ganolog i waith goruchwylio a chynllunio strategol y Bwrdd. Mae dadansoddiad o wybodaeth ddiogelu leol wedi tynnu sylw at themâu sy'n codi dro ar ôl tro sy'n cyflwyno risgiau sylweddol i blant ac oedolion. Mewn ymateb, mae'r Bwrdd wedi nodi camau gweithredu targedig i fynd i'r afael â'r themâu hyn yn rhagweithiol a sicrhau ymateb diogelu cydgysylltiedig ar draws y rhanbarth.

Isod ceir crynodeb o'r themâu allweddol a nodwyd yng nghynllun blynyddol 2024–2025, ynghyd ag uchafbwyntiau'r cynnydd a wnaed hyd yma.

## Cam-drin Plant yn Rhywiol (CPRh)

- Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen CPRh i adolygu cynnydd yn erbyn y dysgu / argymhellion sy'n gysylltiedig â CPRh ac yn erbyn y cynllun gweithredu CPRh cenedlaethol.
- Gwnaed 'ciplun' hunanasesu CPRh gan yr NSPCC ar draws y rhanbarth. Cyflwynwyd y canfyddiadau ac argymhellion i'r bwrdd – sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen i yrru ymateb lleol.
- Cynrychiolwyr o'r BDRh wedi cyfrannu at lunio a datblygu cynllun gweithredu CPRh Cymru Gyfan newydd.
- Arfer da wedi'i rannu ar draws y rhanbarth; gwelliannau i'w gweld mewn gwaith rhanbarthol.

## Cam-drin Domestig

- Cyflwynwyd themâu dysgu o Adolygiadau Lladdiad Domestig i'r BDRh i'w goruchwylio a'u trafod.
- Mae adolygiad parhaus a gwaith targedig i fwrw ymlaen â'r argymhellion ar y gweill.
- Strategaeth VAWDASV wedi'i chyhoeddi a'i rhannu gyda phartneriaid y bwrdd:

**Dolen i'r strategaeth** - https://cardiffpartnership.co.uk/wp-content/uploads/2023/08/VAWDASV-strategy-2023-28-Welsh.pdf

**Dolen i'r cynllun gwella** - https://cardiffpartnership.co.uk/wp-content/uploads/2023/08/Implementation-Plan-Welsh.pdf

## Galluedd a Chydsynio

- Cynhaliwyd gweithdai galluedd a chydsynio yn ystod Wythnos Diogelu Genedlaethol.
- Mae adnoddau codi ymwybyddiaeth yn cael eu datblygu mewn partneriaeth â Gwasanaethau Oedolion a'r Bwrdd Iechyd.
- Sesiwn cinio a dysgu ar alluedd a chydsynio wedi'i chynnig i gynulleidfa amlasiantaethol o'r bwrdd iechyd.
- Gwaith cenedlaethol wedi'i wneud i ystyried offeryn/canllawiau cenedlaethol.
- Adolygiad o'r broses a'r arfer cyfredol ym maes Diogelu Oedolion wedi'i gynnal gyda sicrwydd o brosesau cadarn.
- Adnodd Hyfforddi Deddf Galluedd Meddyliol (DGM) i'w ddatblygu yn 2025.
- Canllawiau Trothwy Oedolion ar ffurf drafft, a DGM a chydsyniad wedi'u hymgorffori.

# ADBORTH DEFNYDDWYR GWASANAETH

Mae cofnodi llais, ymgysylltiad a chyfranogiad defnyddwyr gwasanaeth mewn ffordd ystyrlon a chyson yn parhau i fod yn faes sydd angen ei ddatblygu ymhellach ar draws Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro. Er bod enghreifftiau cryf o arfer da yn bodoli o fewn asiantaethau partner unigol, sy'n dangos ymrwymiad i roi defnyddwyr gwasanaethau wrth wraidd y gwasanaethau, mae yna angen cydnabyddedig i wella sut mae adborth yn cael ei adolygu a'i ymgorffori yng ngwaith ehangach y Bwrdd.

Mae defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd yn cael cynnig cyfleoedd i gyfrannu at brosesau Adolygu Ymarfer, gan gynnwys y cyfle i rannu eu profiadau ar ddiwedd yr adolygiad. Yng Nghaerdydd a'r Fro, gwahoddwyd teuluoedd sy'n ymwneud ag adolygiadau i roi adborth uniongyrchol i'r tîm ADUS (Adolygiad Diogelu Unedig Sengl). Mae Uned Fusnes y Bwrdd yn gweithio'n agos gyda'r tîm ADUS a phartneriaid eraill y Bwrdd i sicrhau bod yr adborth hwn wedi'i ymgorffori'n ystyrlon yn y gwaith parhaus o weithredu'r broses ADUS, a bod ymgysylltiad teuluol yn parhau i fod yn gydweithredol ac yn effeithiol.

Mae Egwyddorion Cyfathrebu ac Ymgysylltu'r Bwrdd yn darparu fframwaith cyffredin ar gyfer sut y dylai asiantaethau ymgysylltu â theuluoedd a chymunedau. Mae'r egwyddorion hyn wedi'u hategu gan strategaethau neu becynnau cymorth cyfathrebu pob partner ei hun ac maent wedi'u mabwysiadu'n ffurfiol gan holl bartneriaid y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol i sicrhau ymgysylltiad cyson a pharchus ar draws pob maes gwaith.

# GWYBODAETH AM Y GWEITHLU

## Hyfforddiant Amlasiantaethol

Er mwyn cefnogi partneriaid y Bwrdd i fynd i'r afael â phryderon diogelu'n effeithiol, mae ymdrechion wedi canolbwyntio ar ymgorffori'r Safonau a'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol yn gyson ledled y rhanbarth. Ym mis Tachwedd, cynhaliwyd Diwrnod Gweithredu Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer hyfforddiant Grŵp B, gan ymgysylltu â chyfranogwyr amlasiantaethol. Er mwyn ymestyn cyrhaeddiad yr hyfforddiant hwn, cyflwynwyd sesiynau ar-lein ychwanegol ym mis Chwefror a Mawrth, gan sicrhau lledaeniad ehangach ymhlith sefydliadau partner.

Ers hynny, mae partneriaid y bwrdd wedi rhoi sicrwydd bod cynnwys eu hyfforddiant Grŵp B yn cyd-fynd â'r safonau cenedlaethol a'r deunyddiau a argymhellir. Yn y cyfamser, mae Gofal Cymdeithasol Cymru wrthi'n adolygu hyfforddiant Grŵp C ar hyn o bryd, gyda'r nod o ddatblygu pecyn hyfforddi arfer gorau. Mae Caerdydd a'r Fro yn cyfrannu'n weithredol at y broses hon drwy gymryd rhan mewn gweithdai datblygu.


## Hunanasesiad hyfforddiant

Mae hunanasesiadau hyfforddiant blynyddol yn cael eu cwblhau gan holl asiantaethau partner y Bwrdd, y mae'n ofynnol iddynt gyflwyno eu hymatebion i'w hadolygu. Mae'r asesiadau'n cael eu dadansoddi i nodi themâu, tueddiadau a meysydd blaenoriaeth sy'n dod i'r amlwg, gyda chanfyddiadau'n cael eu cyflwyno i'r Bwrdd i'w goruchwylio a'u trafod.

Mae pob asiantaeth yn gyfrifol am gynhyrchu ei chamau gwella ei hun yn seiliedig ar ganlyniadau'r asesiad. Mae cynnydd yn erbyn y camau gweithredu hyn yn cael ei adolygu bob chwe mis a deuddeg mis i sicrhau atebolrwydd a gwelliant parhaus.

Yn ogystal, adroddir cyfraddau cwblhau hyfforddiant Grŵp A i'r Bwrdd, gan alluogi monitro cydymffurfiaeth o ran hyfforddiant yn barhaus ar draws y bartneriaeth.

## Training Self-Assessment – Group A Training Stats




## Grŵp Cydlynwyr Hyfforddiant Rhanbarthol

- Mae Rhwydwaith Swyddogion Hyfforddi wedi'i sefydlu, sy'n dod ag arweinwyr hyfforddi o bob rhan o'r bartneriaeth amlasiantaethol at ei gilydd.
- Mae deunyddiau ac offer hyfforddi arfer gorau yn cael eu rhannu ar draws sefydliadau i hyrwyddo cysondeb ac ansawdd.
- Mae mwy o gydweithredu a gwaith integredig ar draws y rhanbarth erbyn hyn.
- Mae rhagor o gyfleoedd ar gyfer rhwydweithio a fforymau amlasiantaethol wedi'u creu i gryfhau cysylltiadau proffesiynol a dysgu a rennir.
- Mae'r rhwydwaith yn darparu llwyfan i rannu adnoddau yn effeithlon ac osgoi dyblygu.
- Mae safonau'n cael eu deall a'u cymhwyso'n gyson ar draws y rhanbarth, gan gyd-fynd â fframwaith Gofal Cymdeithasol Cymru.

## Peilot Hyfforddiant Amlasiantaethol

Ers mis Mehefin 2024, mae'r peilot hyfforddiant diogelu amlasiantaethol 'Beth sy'n Digwydd Nesaf' wedi cael ei gyflwyno ledled Caerdydd a Bro Morgannwg. Wedi'i gynllunio'n unol â Grŵp Safonau Hyfforddiant Cenedlaethol C, mae'r hyfforddiant yn targedu gweithwyr proffesiynol o ystod eang o sectorau ac asiantaethau.

- Mae 2 gwrs teilwredig ar gael: un sy'n canolbwyntio ar ddiogelu Plant a Phobl Ifanc, a'r llall yn canolbwyntio ar Oedolion mewn Perygl.
- Hyd yn hyn, mae 6 sesiwn wedi cael eu cyflwyno.
- Mae cyfanswm o 107 o weithwyr proffesiynol wedi mynychu.
- Mae 12 hwylusydd wedi cael eu dewis a'u hyfforddi i gyflwyno'r sesiynau.
- Mae cynnwys yr hyfforddiant yn cwmpasu prosesau diogelu allweddol, gan gynnwys: Creu adroddiadau, trafod strategaethau, ymholiadau, cynadleddau achos, Adolygiadau Ymarfer Plant, Paneli Diogelu Oedolion, Grwpiau Craidd, Cynadleddau Adolygu, gwaith sy'n gysylltiedig â'r Bwrdd (gan gynnwys adolygiadau), herio proffesiynol, a rheoli honiadau neu bryderon.

# Fframwaith Goruchwylio

Mae goruchwyliaeth staff yn hanfodol i ddiogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl. Mae adolygiadau o achosion, gwaith ymchwil a chanfyddiadau ymchwiliadau eraill wedi dangos bod angen goruchwyliaeth a chefnogaeth dda er mwyn sicrhau bod plant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl yn cael eu hamddiffyn yn effeithiol.

Mae Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro yn cydnabod y bydd gan asiantaethau eu gweithdrefnau a'u polisïau eu hunain o ran goruchwyliaeth ddiogelu. Mae'r Egwyddorion Arfer Gorau hyn ar gyfer Goruchwyliaeth Ddiogelu Amlasiantaethol wedi'u cynllunio i ddarparu fframwaith y dylai pob asiantaeth ymdrechu i'w ddilyn neu weithio tuag ato. Pan roddir y rhain ar waith, bydd yr egwyddorion arfer gorau hyn yn helpu i sicrhau dull cyson o oruchwylio ar draws y rhanbarth.

Bydd pob asiantaeth yn gyfrifol am sicrhau i'r Bwrdd Diogelu eu bod yn cadw at yr egwyddorion hyn a bod cyfleoedd goruchwyliaeth ddiogelu rheolaidd yn cael eu cynnig i weithwyr proffesiynol mewn swyddi cyfrifol. Caiff hyn ei brofi trwy hunanasesiadau unigol blynyddol yr asiantaethau a Gweithgaredd Archwilio'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol.

| | | |
|---|---|---|
| **Lles** | **Grymuso** | **Myfyriol** |
| **Gwybodus am drawma** | **Atal** | **Ymarfer** |
| **Dysgu** | **Partneriaeth** | **Atebolrwydd** |

# ADRAN 137:
# CEISIADAU AM WYBODAETH

Dan Adran 137 y DGCLl, gall Bwrdd Diogelu, at y diben o alluogi neu gynorthwyo'r Bwrdd i berfformio ei swyddogaethau, ofyn i berson neu gorff cymwys gyflwyno gwybodaeth benodol y mae isadran (2) neu (3) yn berthnasol iddi - (a) y Bwrdd, neu (b) person neu gorff a nodir gan y Bwrdd.

**Eleni, nid yw Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro wedi gorfod defnyddio unrhyw geisiadau Adran 137.**

## Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (GAChOau)

Dan Adran 127 yn y DGCLl, "gall swyddog awdurdodedig wneud cais i Ynad Heddwch am orchymyn ("gorchymyn amddiffyn a chynorthwyo oedolyn") mewn perthynas â pherson sy'n byw mewn unrhyw eiddo mewn ardal awdurdod lleol."

Diben gorchymyn amddiffyn a chynorthwyo oedolyn yw -

(a) galluogi'r swyddog awdurdodedig ac unrhyw berson arall sydd gyda'r swyddog i siarad yn breifat â pherson yr amheuir ei fod yn oedolyn mewn perygl

(b) galluogi'r swyddog awdurdodedig i bennu a yw'r person hwnnw'n gwneud penderfyniadau'n rhydd, a

(c) galluogi'r swyddog awdurdodedig i asesu'n briodol a yw'r person yn oedolyn mewn perygl a gwneud penderfyniad fel sy'n ofynnol dan Adran 126(2) ar y camau y dylid eu cymryd, os o gwbl.

**Yn ystod 2024-2025, ni fu angen i BDCF ddefnyddio'r pwerau dan yr adran hon.**


# EIN PARTNERIAETH DDIOGELU

**Mae ein haelod sefydliadau i gyd wedi cyfrannu at gyflawni ein blaenoriaethau diogelu a rennir:**

- Gwasanaethau Cymdeithasol Bro Morgannwg
- Gwasanaethau Cymdeithasol Caerdydd
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- NSPCC
- Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
- Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre
- Gwasanaethau Addysg Caerdydd
- Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Caerdydd
- Arweinwyr Diogelu Caerdydd
- Arweinwyr Diogelu Bro Morgannwg
- Darparwyr Gofal ar draws y rhanbarth
- Addysg Bro Morgannwg
- Heddlu De Cymru
- Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol
- Barnardo’s
- Gwasanaethau Cyfreithiol Bro Morgannwg
- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
- Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru
- Gwasanaethau Cyfreithiol Caerdydd
- Y Swyddfa Gartref
- Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF
- Gwasanaeth Tai Caerdydd
- Gwasanaeth Tai Bro Morgannwg

# CYLLIDEB

Mae Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro yn defnyddio'r fformiwla ariannu genedlaethol i asesu a nodi cyfraniadau ariannol blynyddol gan asiantaethau partner statudol. Mae'r graff a'r siart isod yn dangos sut y cytunodd y Bwrdd ar gyllid gan bob asiantaeth yn 2024-2025:




| Sefydliad | Cyfraniad Cyfun Arfaethedig | Rhaniad yn ôl Sefydliad | Cyfraniad Presennol at Raniad BDRh (%) | Rhaniad Cyfraniad Cyfredol (£) |
|---|---|---|---|---|
| Awdurdodau Lleol | 60% | Cyngor Caerdydd | 67% | £60,000.00 |
| | | Vale of Glamorgan Council | 33% | £30,000.00 |
| Heddlu De Cymru | 10% | Heddlu De Cymru | 100 | £15,000.00 |
| Iechyd | 25% | BIP Caerdydd a'r Fro | 81.25% | £30,468.75 |
| | | Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre | 18.75% | £7,031.25 |
| Gwasanaeth Prawf | 5% | Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol | 100% | £7,500.00 |

# CYSYLLTU Â NI

## Bro Morgannwg

**Plant**

Os oes gennych bryderon am blentyn sy'n byw ym Mro Morgannwg cyfeiriwch eich pryderon at Wasanaethau Plant a Phobl Ifanc Bro Morgannwg:

Cysylltwch â'r Tîm Derbyn a Chymorth i Deuluoedd ar **01446 725 202**

Tîm Dyletswydd Argyfwng y Tu Allan i Oriau Swyddfa:
**029 2078 8570**

**Oedolion**

Os ydych chi wedi neu'n dal i gael eich cam-drin neu'n nabod rhywun rydych chi'n credu ei fod yn cael ei gam-drin neu esgeuluso, cysylltwch â:

Gwasanaethau Oedolion Bro Morgannwg:
**01446 700111**

Y Tu Allan i Oriau:**02920 788570**

## Caerdydd

**Plant**

Os oes gennych bryderon am blentyn sy'n byw yng Nghaerdydd cyfeiriwch eich pryderon at Wasanaethau Plant Caerdydd.

Cysylltwch â'r Pwynt Mynediad Plant ar
**029 2053 6490**

Tîm Dyletswydd Argyfwng y Tu Allan i Oriau Swyddfa:
**029 2078 8570**

**Oedolion**

Os ydych chi wedi neu'n dal i gael eich cam-drin neu'n nabod rhywun rydych chi'n credu ei fod yn cael ei gam-drin neu esgeuluso, cysylltwch â:

Hyb Diogelu Amlasiantaethol (MASH) Caerdydd: **02922 330888**

Y Tu Allan i Oriau:**02920 788570**

**Os yw plentyn neu oedolyn mewn perygl o niwed a'i fod yn fater brys ffoniwch 999 a siaradwch â'r heddlu.**

**Ar gyfer ymholiadau cyffredinol:**

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am waith y Bwrdd Diogelu, cysylltwch ag Uned Fusnes y Bwrdd Diogelu:

**E-bost:** BDRhCaerdyddarFro@caerdydd.gov.uk

**Gwefan:** https://www.cardiffandvalersb.co.uk/cy/

# ATODIAD

1. ADRODDIAD DIWRNOD DATBLYGU
2. AELODAETH Y BWRDD
3. STRWYTHUR LLYWODRAETHU BDRH



ATODIAD 1

Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro
Cardiff & Vale Safeguarding Board

# Adroddiad Crynhoi
# **Diwrnod Datblygu**

17 IONAWR 2025



VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

CRYFACH TECACH GWYRDDACH | STRONGER FAIRER GREENER

CARDIFF CAERDYDD

# Diwrnod Datblygu'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol

Rhoddodd diwrnod datblygu'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol gyfle i fyfyrio ar y gwaith sydd wedi cael ei wneud dros y 12 mis diwethaf a chyfle i wrando, ymgysylltu a dysgu gan bob partner i adolygu blaenoriaethau'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ar gyfer y flwyddyn, gan nodi'r meysydd lle bydd ffocws ychwanegol gan y Bwrdd yn ychwanegu gwerth ac yn cefnogi ymarferwyr wrth ddiogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl ledled rhanbarth Caerdydd a'r Fro.

## Blaenoriaethau ar gyfer 2024/2025

Mae Cynllun Blynyddol y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol 2024-2025 yn tynnu sylw at flaenoriaethau'r Bwrdd ar gyfer y flwyddyn.

## BLAENORIAETH 1: HANFODION DIOGELU

**CANLYNIAD:** Mae'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn cefnogi gwelliant strategol, partneriaethau effeithiol a datblygiad y gweithlu i sicrhau bod hanfodion diogelu yn cael eu cryfhau ar draws y rhanbarth.

## BLAENORIAETH 2: ADOLYGIADAU DIOGELU EFFEITHIOL

**DEILLIANT:** Mae'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn sicrhau bod yna brosesau adolygu effeithiol a bod dysgu o adolygu yn cael ei weithredu ar draws y bartneriaeth.

## BLAENORIAETH 3: YMATEB I THEMÂU DIOGELU

**CANLYNIAD:** Mae'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn ymateb yn effeithiol i themâu diogelu sy'n dod i'r amlwg ac yn cefnogi cydlyniad ymateb amlasiantaethol effeithiol

# 2024/2025 Uchafbwyntiau cynnydd hyd yma

## BLAENORIAETH 1: HANFODION DIOGELU

- Mae trefniadau llywodraethu'n parhau i gryfhau, ac mae cyfres o fframweithiau ac egwyddorion arfer gorau wedi'u datblygu a'u cyhoeddi i gefnogi cryfhau hanfodion diogelu ar draws y bwrdd.
- Datblygwyd Egwyddorion Ymgysylltu a Chyfathrebu sy'n cynnwys 5 egwyddor graidd y mae'n rhaid iddynt fod yn sail i unrhyw waith ymgysylltu â phlant, pobl ifanc ac oedolion.
- Lansiwyd Peilot Hyfforddit Amlasiantaethol sy'n cynnwys 8 sesiwn wedi'u cyflwyno o bell ac wyneb yn wyneb.
- Datblygu Fframwaith Archwilio sy'n mapio'r broses o bartneriaid yn rhannu eu canfyddiadau archwilio eu hunain (lle bo'n berthnasol), a gweithgarwch archwilio unigol ac amlasiantaethol ar gyfer y flwyddyn.

## BLAENORIAETH 2: ADOLYGIADAU DIOGELU EFFEITHIOL

- Datblygwyd Cynllun Gweithredu Grŵp Adolygu Achos gyda nifer o welliannau wedi'u gwneud, gan gynnwys cadeirio cyson ac effeithiol, sicrhau ansawdd adroddiadau yn effeithiol, gwella proses FfPA a chwblhau adolygiadau diogelu hanesyddol.
- Datblygwyd Fframwaith Dysgu a Gwella sy'n dangos sut bydd dysgu'n cael ei nodi, ei ledaenu a'i roi ar waith yn ymarferol o fewn cyd-destun amlasiantaethol, er mwyn gwella canlyniadau i blant ac oedolion sydd mewn perygl.
- Datblygwyd cynllun gweithredu ADUS



# BLAENORIAETH 3: YMATEB I THEMÂU DIOGELU

### Cam-drin Plant yn Rhywiol

- Grŵp gorchwyl a gorffen CPRh a sefydlwyd i adolygu cynnydd yn erbyn y dysgu/argymhellion sy'n gysylltiedig â CPRh ac yn erbyn y cynllun gweithredu CPRh cenedlaethol
- Gwnaed ciplun hunanasesu CPRh gan yr NSPCC ar draws y rhanbarth. Cyflwynwyd y canfyddiadau ac argymhellion i'r bwrdd a'r grŵp gorchwyl a gorffen i yrru ymateb lleol
- Mae cyflawni'r strategaeth camfanteisio'n parhau i fynd rhagddo ac mae'n ei monitro gan y grŵp gorchwyl a gorffen camfanteisio. Tynnwyd sylw at feysydd arfer da

### Cam-drin Domestig

- Cyflwynwyd themâu dysgu ADD i'r BDRh ar gyfer goruchwylio a thrafod
- Mae adolygiad parhaus a gwaith targedig i fwrw ymlaen â'r argymhellion ar y gweill
- Mae Strategaeth VAWDASV wedi'i chyhoeddi a bydd Adroddiad Blynyddol Cynllun Gweithredu VAWDASV yn cael ei rhannu â'r Bwrdd yn gynnar yn 2025

### Galluedd a Chydsynio

- Mae gweithdai wedi'u darparu a sesiynau cinio galluedd a chydsynio wedi'u cynnig i gynulleidfaoedd amlasiantaethol
- Datblygwyd adnoddau codi ymwybyddiaeth mewn partneriaeth â'r Gwasanaethau Oedolion a'r Bwrdd Iechyd
- Dilyniant gwaith cenedlaethol i ystyried offeryn/canllawiau cenedlaethol
- Canllawiau Trothwy Oedolion mewn drafft, a DGM a chydsynio i'w hymgorffori

# Trafodaeth am gynnydd y Blaenoriaethau Thematig

Cynnydd da gydag asesiad Ciplun yr NSPCC, fodd bynnag, byddai'n dda gwybod beth sydd nesaf ac a fyddent yn edrych ar gam-drin plant yn rhywiol hanesyddol

Mae angen mwy o ymwybyddiaeth ynghylch pa wasanaethau sy'n bodoli ar gyfer VAWDASV

Dylai fod negeseuon cyson gan holl bartneriaid y BDRh

Un her allweddol fyddai ariannu ar gyfer y meysydd hyn

Sut ydyn ni'n sicrhau bod yr hyn sy'n cael ei gyflawni yn addas at y diben ac yn gwneud yr hyn y mae'n bwriadu ei wneud?

## Sut gallwn ni adeiladu ar ein cynnydd yn 2025-26?

- Parhau â'r gwaith da ar CPRh gyda'r gweithgor CPRh, datblygu cynllun cyflawni rhanbarthol a fydd yn cyd-fynd â'r Cynllun Cyflawni CPRh Cenedlaethol a gweithio ar sicrhau bod adnoddau ar gael, yn hygyrch ac yn glir.
- Edrych ar lety â chymorth, ac oedolion agored i niwed sydd ag anghenion cymhleth - pa effaith mae tai yn ei chael arnyn nhw?
- Cyswllt rhwng gwefan y BDRh a'r wefan Diogelwch Cymunedol
- Diweddaru a gwella dogfennau penodol y Bwrdd ar gyfer proses amlasiantaethol, gan gynnwys diweddaru taflenni i deuluoedd a sicrhau eu bod ar gael yn rhwydd ar y wefan
- Dysgu o arfer da a dod o hyd i ffyrdd arloesol o wneud hyn
- Adeiladu ar waith Galluedd Meddyliol a Chydsynio ac ystyried sut mae hyn yn cael ei ddefnyddio mewn gwasanaethau pan fydd pobl yn pontio o fod yn blentyn i fod yn oedolyn
- Adeiladu ymhellach ar ymgorffori barn a meddyliau pobl am y gwaith rydym yn ei wneud fel Bwrdd, gan gynnwys cymunedau a staff
- Blaenoriaethu'r cymorth i'n staff

"Roedd hi'n dda treulio amser wyneb yn wyneb gyda chydweithwyr."

# Themâu Dysgu Allweddol o Adolygiadau Ymarfer/ADUS

Yn ystod eu cyflwyniad, tynnodd Brian Allsopp, Rheolwr Adolygu Achosion, sylw at y sefyllfa bresennol o ran Adolygiadau Ymarfer Diogelu ac ADUSau, a dysgu allweddol a ddeilliodd ohonynt.

## Adolygu Atgyfeiriadau yn ystod 2024

Cafodd **11** o atgyfeiriadau eu hystyried i'w hadolygu

Bydd **6** nawr yn cael eu hystyried o dan y broses ADUS


## Adolygiadau wedi'u Cwblhau

Cyhoeddwyd **1** AYP a

chytunwyd ar **3** FfPA yng nghyfarfod y Bwrdd*

**Cytunwyd ar ddau FfPA arall*


## Themâu Dysgu




Llais y plentyn/ oedolyn mewn perygl



Chwilfrydedd Proffesiynol (Pryderus)



Rhannu Gwybodaeth



Goruchwyliaeth



Cadw Cofnodion



Hyfforddiant

## Trafod themâu

- Pan edrychwn ar gyfleoedd a gollwyd, mae angen i ni sicrhau bod ymwybyddiaeth o'r amgylchiadau ar y pryd megis Covid-19
- Mae'n bwysig deall cyd-destun y sefydliad; mae hyn yn helpu i ddeall pam y gwnaed y penderfyniad a pheidio ag edrych arno ar ei ben ei hun.
- Wrth osod dysgu mewn themâu, mae angen i ni sicrhau nad ydym yn lleihau cymhlethdod a chynnwys y dysgu gwreiddiol

## Newidiadau cadarnhaol a nodwyd

- Mae'r camau nesaf o ran cynnydd yn canolbwyntio ar weithredu'r ADUS
- Dilyniant argymhellion a chamau gweithredu i'w cwblhau
- Parhau i rannu dysgu o'r adolygiadau
- Y cynnydd yn nifer y Cadeiryddion/Adolygwyr a'r Aelodau Panel hyfforddedig i gynnal adolygiadau gyda mwy o hyfforddiant yn cael ei gynnig

# Dysgu Allweddol o Adolygiadau Dynladdiad Domestig

Cyflwynodd Jenny Rogers, RhG dros Ddiogelwch Cymunedol, ar ddysgu allweddol o adolygiadau dynladdiad domestig. Mae'r adolygiadau hyn bellach yn dod o dan y broses ADUS, ond roedd y camau gweithredu hyn sy'n weddill yn bodoli cyn dechrau'r broses ADUS.

Bu cyfanswm o 10 ADD sydd wedi digwydd rhwng 2014 a 2020, gyda 3 ADD posibl yn dal i fynd ymlaen. Mae adolygiad cyflym o'r cynlluniau gweithredu wedi cael ei gynnal ac wedi nodi 60 o gamau gweithredu sy'n weddill.

**Mae'r camau gweithredu sy'n weddill wedi'u grwpio'n themâu, a'r 4 thema bwysicaf yw:**

| Thema | Cyfanswm Nifer y Camau Gweithredu |
|---|---|
| Addysg | 11 |
| Polisi a Gweithdrefn | 10 |
| Gwahaniaethau Diwylliannol | 10 |
| Hyfforddiant | 9 |


## Trafodwyd materion ychwanegol gan gynnwys:

- Yr angen am godi ymwybyddiaeth
- Rhannu gwybodaeth yn well
- Mwy o waith gydag ysgolion
- Cywirdeb cofnodi data
- Polisïau a gweithdrefnau perthnasol
- Adlewyrchu dewis y dioddefwr
- Ymgysylltu'n well â dioddefwyr
- Defnyddio ymchwil yn well
- Rhannu arfer da yn well
- Cyflwyno hyfforddiant a gwelliannau



## Dysgu Cenedlaethol

Rhoddodd Kate Bishop, Rheolwr Busnes Strategol y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, yr wybodaeth ddiweddaraf am Ddysgu Cenedlaethol. Gellir nodi dysgu mewn amrywiaeth o ffyrdd. Bydd sicrhau ein bod yn cipio ac yn adolygu'r dysgu a gynhyrchir o'r ffrydiau isod yn barhaus yn sicrhau bod gennym fodel dysgu cadarn ar waith.




### Mae'r ffynonellau dysgu yn cynnwys:

- Risg BDAC, Ymateb ac Adolygiad 2023
- Adolygiad Cyflym AGC o Weithdrefnau Amddiffyn Plant 2023
- Cynllun Gweithredu Cenedlaethol i Atal Cam-drin Pobl Hŷn 2023
- Arolygiaeth ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant 2019-2024
- Arolygiaeth ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant 2024
- Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol – DRAFFT
- Adolygiad Thematig BDAC o Adolygiadau Ymarfer Oedolion – DRAFFT

### Er mwyn ymateb i'r dysgu hwn, bydd y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn

- Cwblhau Cynllun Gwella a darparu ymateb ffurfiol i Arolygiaeth Gofal Cymru
- Datblygu traciwr i fonitro cynnydd yn erbyn yr holl argymhellion cenedlaethol
- Parhau i fonitro a goruchwylio Cynllun Gweithredu JICPA Caerdydd yn y Grŵp Cyflawni
- Parhau â gwaith rhanbarthol mewn perthynas â CPRh a chysylltu â'r datblygiad ar gyfer y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol
- Ystyried camau gweithredu o fewn Cynllun Gweithredu Pobl Hŷn Llywodraeth Cymru a gweithio i gefnogi lle bo hynny'n briodol yn 2025
- Parhau i gefnogi cynhadledd BDAC a gweithio'n agos gyda Phrifysgol Met Manceinion ar ddarganfyddiadau cynnar yr Adolygiad Thematig o Adolygiadau Ymarfer Oedolion ledled Cymru

# Gwrando ar lais plant ac oedolion

Yn ystod y Diwrnod Datblygu, clywsom o dri safbwynt gwahanol ar bwysigrwydd gwrando ar lais plant ac oedolion a sut y gallwn sicrhau bod hyn yn rhan annatod o waith y bwrdd.

## NSPCC – Dysgu o Adolygiadau Achos

Tynnodd Carl Harris, Cyfarwyddwr Cynorthwyol NSPCC Cymru sylw at sut mae adolygiadau ymarfer yn tynnu sylw'n rheolaidd at faterion allweddol sy'n ymwneud â llais y plentyn.

- plant heb gael eu gweld yn aml
- Gormod o sylw yn cael ei roi ar anghenion yr oedolion
- anhawster deall a myfyrio ar lais y plentyn.

## Mae dysgu ar gyfer ymarfer gwell yn cynnwys

- deall beth yw llais y plentyn
- ennill sgiliau a gwybodaeth briodol i allu deall a myfyrio ar lais y plentyn
- meithrin perthnasoedd i sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei glywed a'i ddeall yn iawn.

Arweiniodd Carl y grŵp trwy'r dysgu yn feddylgar ac roedd ganddo ffyrdd gwych o annog y grŵp i ganolbwyntio ar bwysigrwydd gweld amgylchiadau o safbwynt y plentyn, gan ystyried sut gall eu profiad bywyd yn aml fod yn wahanol iawn i sut rydym yn ei ganfod.

"Mae hwyluso llais y plentyn yn golygu meithrin **perthnasoedd** a **chreu amgylcheddau** lle mae plant yn teimlo'n **gyfforddus** ac yn **hyderus** wrth rannu eu meddyliau a'u profiadau."



## Gwasanaeth Cynghorydd Trais Domestig Annibynnol (CTDA) a'r Tîm Atal Trais (TAT)

Cyflwynodd Nicola Hadley a Vicky Lee o'r Uned Atal Trais ar rôl y Cynghorydd Trais Domestig Annibynnol Plant a Phobl Ifanc a'r Tîm Atal Trais yn Ysbyty Athrofaol Cymru. Dangoson nhw bwysigrwydd gwrando ar lais y plentyn a sicrhau bod ymarfer yn canolbwyntio ar y plentyn ac fe wnaethant arddangos y buddion a geir pan fo hyn yn cael ei wneud yn effeithiol. Gydag enghreifftiau o arfer rhagorol a rhywfaint o ddata allweddol, rhoddodd Nicola a Vicky olwg graff ar y gwaith maen nhw'n ei wneud.

*"Ein nod yw darparu DULL GWEITHREDU SY'N CANOLBWYNTIO AR YR UNIGOLYN o ymdrin â gofal cleifion. Caiff pob claf ei asesu a rhoddir cymorth iddo sy'n cyd-fynd â'i anghenion unigol."*

"Mae angen i bobl ifanc weld a phrofi'r effaith mae eu llais wedi'i chael"

## Grŵp Cyfranogiad, Gwasanaethau Plant

Tynnodd Matthew Osborne, RhG dros Wasanaethau Plant, sylw at bwysigrwydd lleisiau plant wrth lunio polisïau, rhaglenni ac ymarfer o fewn gwasanaethau plant. Soniodd Matt wrth y grŵp am ychydig o'r gwaith hynod bwysig a wnaed gan y grŵp cyfranogi yng Nghaerdydd, gydag enghraifft deimladwy o sut roedd person ifanc wedi symud ymlaen trwy gydol ei bywyd a goresgyn sawl her i wneud rhai camau cadarnhaol iawn ar gyfer ei dyfodol. Roedd yn ddisgrifiad calonogol i glywed pa mor bell yr oedd y person ifanc hwn wedi dod a sut mae hi'n mynd ymlaen i rannu ei stori fel y gellir defnyddio ei llais a'i phrofiad bywyd i lunio'r dysgu ar gyfer gweithwyr cymdeithasol yn y dyfodol.

# Hyfforddiant Amlasiantaethol

Cyflwynodd y BDRh Beilot Hyfforddiant Diogelu Amlasiantaethol 'Beth Sy'n Digwydd Nesaf' ym mis Mehefin 2024. Mae'r cyrsiau wedi'u dylunio ar gyfer gweithwyr proffesiynol o dan Grŵp C y Safonau Hyfforddiant Cenedlaethol, o gynulleidfaoedd amlasiantaethol, aml-sector ledled Caerdydd a Bro Morgannwg. Mae dau gwrs hyfforddi ar gael: un sy'n canolbwyntio ar Oedolion mewn Perygl a'r llall ar gyfer Plant a Phobl Ifanc.

Cafodd Diwrnod Gweithredu ar gyfer pecyn Grŵp B ei gynnal gan Gofal Cymdeithasol Cymru ym mis Tachwedd ac mae'n parhau i weithio i ystyried sut mae'n well cyflwyno hyn ac olrhain y nifer sy'n derbyn yr hyfforddiant hwn.


## Trafodaeth – Pwyntiau Allweddol

- Sut gallwn ni barhau i gynnig hyn? Edrychwch ar Fyrddau Diogelu Rhanbarthol eraill a sut maen nhw'n ei gyflwyno.
- A oes unrhyw arferion da y gellir eu hadolygu?
- Dylai Grŵp C fod yn gyfrifol am eu datblygiad personol eu hunain.
- Mae'n anodd i sefydliadau sy'n mynd ar draws Cymru a Lloegr – megis GCPhEM, yr Heddlu. A oes rhaid iddyn nhw wneud hyfforddiant lluosog i ddiwallu anghenion safonau gwahanol?
- Mae'r angen am hyfforddiant yn barhaus, felly mae angen calendr treigl i ateb y galw
- Mae rhai sefydliadau'n darparu hyfforddiant ar lefel uchel, ac mae'n gweithio iddyn nhw
- Datblygu modiwl ar-lein neu ddulliau eraill o gyflwyno
- Mae angen i'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ei gwneud yn glir pwy sydd angen gwneud pob hyfforddiant a phwy sydd o fewn pob categori
- Byddai'n haws cyflwyno a monitro hyfforddiant grŵp B pe bai opsiwn e-fodiwl
- Mae cwmpas y gynulleidfa ar gyfer grŵp B yn helaeth ac felly mae angen i ni feddwl yn ofalus ac yn greadigol ynghylch disgwyliadau cyflawni/cynnal hyn


# Dadansoddi Data

Adolygodd Rebecca Brockway, Rheolwr Polisi a Datblygu, y canfyddiadau data a hunanasesu. Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i ddeall ein data yn well mewn perthynas ag adolygiadau a'r cynnydd mewn perthynas â chamau gweithredu a gynhyrchir o argymhellion adolygiad. Gwelwyd gostyngiadau yn y terfynau amser ers i adolygiadau gael eu dechrau ac mae Hunanasesiad y Bwrdd yn tynnu sylw at y cynnydd sydd wedi'i wneud i wella swyddogaeth graidd y bwrdd.

## Dadansoddi Cynnydd yr Adolygiadau sydd 'Ar Waith'





## Amserlenni Ers Atgyfeirio – Adolygiadau sydd 'Ar Waith'




**50% o'r adolygiadau ar waith dros 2 flynedd (57% ym mis)**

**38% o'r adolygiadau ar waith dros 3 blynedd (47% ym mis)**


## Argymhellion Agored – COG




## Cynnydd Argymhellion

| | Mawrth 2024 | Mai 2024 | Medi 2024 | Ion 2025 | Mai 24 – Ion 25 Cymharydd |
|---|---|---|---|---|---|
| Camau Gweithredu Agored | 38 | 113 | 111 | 111 | ↓ |
| Wedi'u cwblhau | 45 % (17 o gamau) | 14 % (16 o gamau) | 39 % (43 o gamau) | 47 % (52 o gamau) | ↑ |
| Anghyflawn | 35 % (21 o gamau) | 85 % (97 o gamau) | 61 % (68 o gamau) | 54 % (59 o gamau) | ↓ |
| Gwyrdd | 45 % (17 o gamau) | 15 % (17 o gamau) | 77 % (85 o gamau) | 81 % (90 o gamau) | ↑ |
| Oren | 47 % (18 o gamau) | 16 % (18 o gamau) | 19 % (21 o gamau) | 14 % (15 o gamau) | ↓ |
| Coch | 11 % (4 cam) | 3 % (4 cam) | 3 % (3 cam) | 4 % (5 cam) | ↑ |

## Dadansoddiad Hunanasesu'r Bwrdd



# Cynllunio yn y Dyfodol – Pum Maes Effeithiolrwydd Diogelu

Er mwyn darparu darlun cenedlaethol cydlynol, cywir a chytbwys yn briodol o effeithiolrwydd diogelu yng Nghymru a dealltwriaeth genedlaethol a rennir o gryfderau, gwendidau, meysydd ar gyfer gwella a datblygu'r system gyfan, mae'n ofynnol i ni fel bwrdd ymateb i'r **Pum Maes Effeithiolrwydd Diogelu** ac, yn anad dim, ymateb i un cwestiwn sylfaenol:

## Sut gallwn ni fod yn sicr bod ein Prosesau Diogelu Amlasiantaethol yn effeithiol?

Gofynnwyd i gyfranogwyr ystyried yr hyn sydd gennym eisoes ar waith a pha faterion pellach y mae angen eu hystyried wrth ymateb i'r 5 maes.

### Y Broses Ddiogelu

| Yr hyn rydym eisoes yn ei wneud | Yr hyn sydd angen i ni ei wneud |
|---|---|
| Grŵp Cyflawni Lleol | Golwg unigol ar y plentyn |
| Grwpiau Diogelu Corfforaethol | Presenoldeb mewn cyfarfodydd diogelu |
| Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd lleol | Cyfrifoldebau ar gyfer pob gweithiwr proffesiynol mewn prosesau diogelu e.e. gwirio grwpiau craidd |
| | Llais pobl yn cael ei fwydo drwodd – cyfle i'r cyhoedd fwydo i mewn, beth yw eu profiadau o brosesau |
| | Trefniant ar gyfer TDARau |

### Gweithgarwch a data amlasiantaethol

| Yr hyn rydym eisoes yn ei wneud | Yr hyn sydd angen i ni ei wneud |
|---|---|
| Datblygu a gweithredu polisi a gweithdrefn | Fframwaith perfformiad |
| Model Adolygu Parhaus | Dysgu pan mae pethau wedi mynd yn 'dda' |
| Archwilio a SA | |
| Cynnydd hunanasesu'r bwrdd | |
| Adolygiadau | |



## Adborth Defnyddwyr Gwasanaeth

| Yr hyn rydym eisoes yn ei wneud | Yr hyn sydd angen i ni ei wneud |
|---|---|
| Egwyddorion cyfathrebu ac ymgysylltu | Sgyrsiau cychwynnol am yr hyn y mae'r unigolyn am i'r canlyniad fod a sut arall y gallwn fesur cynnydd |
| Fodd bynnag, mae prosesau adborth yn wahanol i sefydliadau a systemau gwahanol | Mae angen i ni ofyn sut y gallem gael adborth ystyrlon |
| | Adolygu a ydym yn defnyddio'r llwyfannau cywir ar gyfer pobl ifanc |
| | Ychwanegu cyd-destun a naratif ar adborth |
| | Sicrhau ein bod yn dadansoddi adborth. Beth rydym yn ei wneud ag ef? |

## Gwybodaeth am y gweithlu

| Yr hyn rydym eisoes yn ei wneud | Yr hyn sydd angen i ni ei wneud |
|---|---|
| Cynlluniau recriwtio a chadw unigol | Nid oes angen i unrhyw dimau hyfforddi canolog o fewn rhai asiantaethau, yr holl hyfforddiant a gwmpesir gan y timau unigol – angen caniatáu ar gyfer hyn |
| Proffiliau gweithlu ar gyfer swyddi cofrestredig | Meddu ar swyddi gwag/cael adroddiadau gan asiantaethau ar gyfer staff |
| Mae gan rai asiantaethau lais ac ymddygiad unigol | Adolygu arolwg blynyddol o'r gweithlu gydag arweinydd diogelu |
| | Dysgu o ranbarthau eraill |

## ATODIAD 2

# AELODAETH BWRDD DIOGELU RHANBARTHOL CAERDYDD A'R FRO

Mae'r aelodaeth yn cydymffurfio â'r canllaw a gyhoeddwyd o dan Ran 7 (Adran 134(2) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014). Ceir rhestr o aelodau isod:

| ENW | RÔL | ASIANTAETHAU |
|---|---|---|
| **AWDURDOD LLEOL** | | |
| **GWASANAETHAU CYMDEITHASOL** | | |
| **Sarah McGill** | Cyfarwyddwyr Corfforaethol **(CYD-GADEIRYDD BDCF)** | Pobl a Chymunedau, Caerdydd |
| **Lance Carver** | Cyfarwyddwr **(CYD-GADEIRYDD BDCF)** | Gwasanaethau Cymdeithasol, Bro Morgannwg |
| **Deborah Driffield** | Cyfarwyddwr | Gwasanaethau Plant, Caerdydd |
| **David Murray-Dickson** | Rheolwr Arweiniol Diogelu | Gwasanaethau Oedolion, Caerdydd |
| **ADDYSG** | | |
| **Katy Williams** | Pennaeth Cyflawniad i Bawb ar gyfer Gwella Ysgolion a Chynhwysiant | Addysg a Dysgu Gydol Oes, Bro Morgannwg |
| **Melanie Godfrey** | Cyfarwyddwr | Yr Adran Addysg, Caerdydd |
| **GWASANAETH TROSEDDAU IEUENCTID / GWASANAETH CYFIAWNDER IEUENCTID A CHYMORTH CYNNAR (GCICHC)** | | |
| **Kirsty Davies** | Rheolwr Gwasanaeth | GCICHC, Bro Morgannwg |
| **Angharad Thomas** | Rheolwr Gweithredol, Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid | Gwasanaethau Plant, Caerdydd |
| **TAI** | | |
| **Laura Garvey-Cubbon** | Rheolwr Gweithredol, Partneriaethau a Chydgomisiynu | Tai, Caerdydd |

| ENW | RÔL | ASIANTAETHAU |
|---|---|---|
| **Nick Jones** | Rheolwr Gweithredol, Tai'r Sector Cyhoeddus | Tai a Chymunedau, Cyngor Bro Morgannwg |
| **HEDDLU DE CYMRU** | | |
| **Clayton Richie** | Ditectif Arolygydd, Adran Diogelu'r Cyhoedd | Heddlu De Cymru |
| **Y GWASANAETH PRAWF CENEDLAETHOL** | | |
| **Eirian Evans** | Pennaeth Uned Cyflenwi Prawf Caerdydd a'r Fro | Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol |
| **IECHYD** | | |
| **Jason Roberts** | Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| **Linda Hughes-Jones** | Pennaeth Diogelu | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| **Nicola Edwards** | Pennaeth Nyrsio - Diogelu | Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe |
| **Katharine Thomas** | Dirprwy Bennaeth Diogelu | Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe |
| **FELINDRE** | | |
| **Fiona Davies** | Pennaeth Diogelu a Phersonau sy'n Agored i Niwed | Ymddiriedolaeth GIG Felindre |
| **TÎM DIOGELU CENEDLAETHOL, IECHYD CYHOEDDUS CYMRU** | | |
| **Nigel Farr** | Meddyg Teulu Diogelu Cenedlaethol | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| **Y SWYDDFA GARTREF** | | |
| **Gemma Ware** | Uwch Reolwr Gweithrediadau | Y Swyddfa Gartref |
| **GWASANAETH CARCHAR EI FAWRHYDI** | | |
| **Simone Flook** | Dirprwy Lywodraethwr | Gwasanaeth Carchardai Ei Fawrhydi |

| ENW | RÔL | ASIANTAETHAU |
|---|---|---|
| **YMDDIRIEDOLAETH GIG GWASANAETHAU AMBIWLANS CYMRU** | | |
| **Vicky Maxwell** | Pennaeth Diogelu | Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| **TRYDYDD SECTOR** | | |
| **Carl Harris** | **Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Cyd-gadeirydd BDCF)** | **NSPCC** |
| **Candice Lloyd** | Rheolwr Gwasanaeth | NYAS |
| **Sarah Crawley** | Cyfarwyddwr | Barnardo's |
| **Yvonne Connolly** | Cyfarwyddwr Gweithredol | Llamau |
| **DARPARWYR GOFAL** | | |
| **Brian West** | Cadeirydd Cartrefi Gofal Bro Morgannwg/Fforwm Gofal Cymru | Cartrefi Gofal/Fforwm Gofal Cymru |
| **YMGYNGHORWYR YN BRESENNOL** | | |
| **Leanne Weston** | Rheolwr Gweithredol, Rheolwr Cyfreithiol | Tîm Cymunedol, Gwasanaethau Cyfreithiol, Caerdydd |
| **Victoria Davidson** | Ymgynghorydd Cyfreithiol | Gwasanaethau Cyfreithiol Bro Morgannwg |
| **Artie Meakin** | Aelod o'r Bwrdd, Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru | Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol |
| **Beth Aynsley** | Swyddog Polisi, Adolygiad Diogelu Unedig Sengl, Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio **(Cadeirydd y Grŵp Adolygu Achosion)** | Llywodraeth Cymru |
| **Iain McMillan** | Pennaeth Rheoli Adnoddau a Diogelu **(Cadeirydd y Grŵp Cyflawni)** | Gwasanaethau Cymdeithasol, Bro Morgannwg |

# ATODIAD 3

## LLYWODRAETHIANT BWRDD DIOGELU RHANBARTHOL CAERDYDD A BRO MORGANNWG

